# Pecyn Dogfennau Cyhoeddus

POLICE AND CRIME PANEL
PANEL HEDDLU A THROSEDD

**Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru**

Dydd Llun, 7 Mawrth 2016 at 2.00 pm
Bodlondeb, Conwy

# RHAGLEN

1. **Ymddiheuriadau am absenoldeb**

2. **Datgan cysylltiad: Cod Ymddygiad Llywodraeth Leol**

   Caiff yr Aelodau eu hatgoffa bod yn rhaid iddynt ddatgan **bodolaeth** a **natur** eu cysylltiadau personol.

3. **Materion Brys**

   Rhybudd o faterion a ddylai, ym marn y Cadeirydd, gael eu hystyried yn y cyfarfod fel rhai brys.

4. **Cofnodion** (Tudalennau 1 - 8)

   Cymeradwyo a llofnodi cofnodion y cyfarfod diwethaf fel cofnod cywir

5. **Cyhoeddiadau gan y Cadeirydd**

6. **Gwrandawiad Cadarnhau ar gyfer swydd y Prif Weithredwr** (Tudalennau 9 - 16)

7. **Ystyried adroddiadau gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd:**

   **a)** Diweddariad cyfnodol Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru (Tudalennau 17 - 29)

   **b)** Diweddariad ar Gyllideb 2015/16 (ar 31 Rhagfyr 2015) (Tudalennau 30 - 33)

8. **Dyddiad y cyfarfod nesaf:**

   I'w gadarnhau

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

Aelodau'r Panel

| | |
|---|---|
| Cyng Brian Blakeley | Cyngor Sir Ddinbych |
| Cyng Glenys Diskin (Cadeirydd) | Cyngor Sir y Fflint |
| Cyng Philip C. Evans Y.H. | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Cyng David Griffiths | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Cyng Julie Fallon | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Cyng William T. Hughes | Cyngor Sir Ynys Mon |
| Cyng Bernie McCann | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Cyng Dilwyn Morgan | Cyngor Gwynedd |
| Cyng Neville Phillips OBE Y.H. | Cyngor Sir y Fflint |
| Cyng Gethin Williams | Cyngor Gwynedd |
| | |
| Patricia Astbury (Is-Gadeirydd) | Aelod Annibynnol Cyfetholedig |
| Timothy Rhodes | Aelod Annibynnol Cyfetholedig |

Sylwer: mae'n bosibl y bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ffilmio i'w ddarlledu'n fyw neu'n ddiweddarach ar wefan Panel yr Heddlu a Throsedd - ar ddechrau'r cyfarfod, bydd y Cadeirydd yn cadarnhau a fydd y cyfarfod cyfan neu ran ohono'n cael ei ffilmio. Gallai'r lluniau a'r recordiad sain gael eu defnyddio at ddibenion hyfforddi.

Yn gyffredinol, nid yw'r mannau eistedd cyhoeddus yn cael eu ffilmio. Fodd bynnag, drwy fynd i'r ystafell gyfarfod a defnyddio'r mannau eistedd cyhoeddus, rydych yn cydsynio i gael eich ffilmio a'r posibilrwydd y bydd y lluniau a'r recordiadau sain hynny'n cael eu defnyddio at ddibenion gweddarlledu a / neu hyfforddiant.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynglŷn â hyn, cysylltwch â chynrychiolydd y Cyfarwyddwr Strategol – Democratiaeth a'r Amgylchedd yn y cyfarfod.

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

# PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

Dydd Llun, 25 Ionawr 2016, am 2.00 pm
Bodlondeb, Conwy

| | |
|---|---|
| YN BRESENNOL: | Y Cynghorydd Glenys Diskin (Cadeirydd) |
| | Y Cynghorwyr: Brian Blakeley, Philip C. Evans Y.H., Julie Fallon, William T Hughes, Bernie McCann, Dilwyn Morgan, Neville Phillips a Gethin Williams |
| Aelod Lleyg/ Aelod Cyfetholedig | Pat Astbury a Tim Rhodes |
| Swyddogion: | Dawn Hughes (Uwch Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor) a Richard Jarvis (Cyfreithiwr). |
| Hefyd yn bresennol: | Guto Edwards (Pennaeth Cyllid (Cyfarwyddwr Cynorthwyol) – Heddlu Gogledd Cymru), Stephen Hughes (Prif Weithredwr Dros Dro, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd), Kate Jackson (Prif Swyddog Cyllid, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd), Winston Roddick CB QC (Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru) a Julian Sandham (Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd). |

216. **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd David Griffiths a Mr Ken Finch (Cyfarwyddwr Strategol - Democratiaeth a'r Amgylchedd).

217. **DATGAN CYSYLLTIAD: COD YMDDYGIAD LLYWODRAETH LEOL**

Datganodd y Cynghorydd Julie Fallon gysylltiad personol, gan fod ei gŵr yn Swyddog yr Heddlu gyda Heddlu Gogledd Cymru.

218. **MATERION BRYS**

Hysbysodd Mr Richard Jarvis, Cynghorydd Cyfreithiol i Banel yr Heddlu a Throsedd (PCP) yr Aelodau fod y Swyddfa Gartref yn cynnal ymgynghoriad, a oedd yn ceisio barn ar y broses gwyno ar gyfer Paneli Heddlu a Throsedd wrth geisio datrys cwynion nad ydynt yn ddifrifol a wnaed yn erbyn Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd.

Y dyddiad cau ar gyfer yr ymgynghoriad oedd 10 Mawrth, 2016, a oedd cyn cyfarfod nesaf y PCP.

Felly, gofynnodd Mr Jarvis am awdurdod dirprwyedig i baratoi ymateb ar ran y PCP, a fyddai wedyn yn cael ei ddosbarthu i Aelodau'r Panel am sylwadau a'i gyflwyno i'r Swyddfa Gartref cyn y dyddiad cau o 10 Mawrth 2016.

**PENDERFYNWYD-**

**Rhoi awdurdod wedi'i ddirprwyo i Mr. Richard Jarvis, Cynghorydd Cyfreithiol i Banel yr Heddlu a Throsedd i baratoi ymateb i Ymgynghoriad y Swyddfa Gartref - Cwynion am Gomisiynwyr Heddlu a Throsedd fel yr amlinellir uchod.**

219. **COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a gynhaliwyd 14 Rhagfyr 2015 i'w cymeradwyo.

Mewn perthynas â Chofnod 211 - Penderfyniad (B), hysbysodd Prif Weithredwr Dros Dro Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yr Aelodau fod 12 Cwnstabl Gwirfoddol wedi cael eu recriwtio yn llwyddiannus i rôl Cwnstabl yn y ddwy flynedd ddiwethaf - 9 ohonynt, wedi ymuno â Heddlu Gogledd Cymru, tra bod 3 wedi ymuno Heddlu arall.

**PENDERFYNWYD-**

**Cymeradwyo cofnodion cyfarfod Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 14 Rhagfyr 2015 fel cofnod cywir.**

220. **CYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD**

Hysbysodd y Cadeirydd (y Cynghorydd Glenys Diskin) y Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru (PCP) bod Mr. Ken Finch (Cyfarwyddwr Strategol - Democratiaeth a'r Amgylchedd) wedi cael ei gymryd yn wael yr wythnos diwethaf, ac felly nid oedd yn gallu dod i'r cyfarfod heddiw.

Ar ran y PCP, estynnodd y Cadeirydd ei dymuniadau gorau i Mr Finch a dymunodd wellhad buan iddo.

Gan mai hwn oedd i fod yn gyfarfod diwethaf Mr. Finch cyn ei ymddeoliad, cymerodd y Cadeirydd hefyd y cyfle i ddiolch i Mr. Finch am y gefnogaeth, cyngor ac arweiniad amhrisiadwy roedd wedi darparu i'r PCP ac y byddai colled fawr ar ei ôl.

Byddai llythyr o ddiolch yn cael ei anfon at Mr. Finch yn cyfleu dymuniadau gorau'r PCP ac yn diolch iddo am ei holl waith caled.

Dywedodd y Cynghorydd Philip C. Evans YH wrth y PCP ei fod wedi ymweld â Mr Finch yn ddiweddar yn yr ysbyty a rhagwelwyd y byddai'n cael ei ryddhau o'r ysbyty yn fuan.

Adleisiodd Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd (PCC) sylwadau'r Cadeirydd a dywedodd ei fod wedi gwerthfawrogi'n fawr y cymorth a roddwyd gan Mr. Finch, a oedd wedi ei helpu i lywio trwy ddyfroedd dieithr, fel y PCC cyntaf yng Ngogledd Cymru.

Cyhoeddodd y Cadeirydd hefyd fod Mrs Amanda Bragg wedi ymddiswyddo fel Cynghorydd Sir o Gyngor Sir y Fflint ac nad oedd felly mwyach yn aelod o'r PCP.

Diolchodd y Cadeirydd i Mrs. Bragg ar ran y PCP am ei hymroddiad i'r Panel; roedd y PCP wedi colli Aelod ardderchog, nad oedd yn ofni herio'r Comisiynydd neu Swyddogion.

Byddai llythyr o ddiolch yn cael ei anfon at Mrs Bragg yn cyfleu dymuniadau gorau'r PCP ac yn diolch iddi am ei holl waith caled.

Estynnodd y PCC hefyd ei ddiolch i Mrs. Bragg, a oedd wedi bod yn aelod effeithiol iawn o'r PCP.

Croesawyd y Cynghorydd Neville Phillips i'r cyfarfod, a oedd wedi cymryd lle Mrs. Bragg, fel cynrychiolydd Cyngor Sir y Fflint. Roedd y Swyddfa Gartref wedi cymeradwyo penodiad y Cynghorydd Philips ddydd Gwener 22 Ionawr, 2016, felly, roedd yn gallu pleidleisio ar faterion.

Mynegodd y PCC hefyd ei gydymdeimlad i’r Cadeirydd ar golli ei chwaer yn ddiweddar.

221. **DIWEDDARIAD GAN GOMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU**

Darparodd Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd (PCC) Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru (PCP) gyda'r diweddariad canlynol ers cyfarfod diwethaf y PCP:

- Gorwariant ar gyllideb TG:
  - Roedd y PCC yn dal i aros am adroddiad gan Heddlu Gogledd Cymru ar y mater hwn; nid oedd hyn yn feirniadaeth, gan fod llawer iawn o waith yn cael ei wneud; byddai adborth yn cael ei roi yng nghyfarfod nesaf y PCP fis Mawrth 2016.
- Ymosodiadau llosgi bwriadol - Parc Caia, Wrecsam
  - Adroddodd y PCC, yn dilyn cyfres o danau bwriadol ym Mharc Caia, byddai'n ymweld â'r ardal ddydd Mawrth, 26 Ionawr, 2016 i gwrdd ag arweinwyr cymunedol. Roedd y PCC hefyd i fod i gyfarfod â Phrif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru cyn bo hir i drafod y mater.
- Ystadegau Troseddau
  - Ar 20 Ionawr, 2016, bu cynnydd o 1% mewn troseddau yn gyffredinol yng Ngogledd Cymru.
  - Bu gostyngiad o 5% mewn byrgleriaethau domestig; gostyngiad o 12% mewn byrgleriaeth annomestig; a gostyngiad o 8% mewn lladrata.
  - Mae troseddau treisgar wedi gweld cynnydd o 17%, fodd bynnag, cydnabyddir bod y newidiadau yn y safonau cofnodi trosedd wedi effeithio ar y ffigur hwn, gan fod y categori hwn yn awr yn cynnwys trais domestig. Yn ogystal, roedd mwy o hyder yn Heddlu Gogledd Cymru a pharodrwydd gan ddioddefwyr i riportio trosedd hefyd wedi effeithio ar y ffigurau troseddu.

- Adroddodd y PCC hefyd, yn dilyn pryderon a fynegwyd i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ynghylch toriadau i'r Dyraniad Cyllid Grant, roedd cyllid wedi'i sicrhau i barhau i ariannu'r Ganolfan Gymorth i Ddioddefwyr, Ymgynghorwyr Trais Rhywiol Annibynnol (ISVA) ac Ymgynghorwyr Trais Domestig Annibynnol (IDVA). Yn ogystal, mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i ymrwymiad ariannu tair blynedd, a fyddai'n galluogi'r PCC i gynllunio'n briodol.

222. **CYNLLUN YR HEDDLU A THROSEDD**

Cyflwynodd Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru (PCC) Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru (PCP) gyda'i amrywiad drafft i'r Cynllun yr Heddlu a Throsedd ar gyfer Gogledd Cymru, er mwyn sicrhau bod y Cynllun a'i amcanion yn parhau i adlewyrchu blaenoriaethau pobl Gogledd Cymru.

Mae'r amrywiad drafft (y trydydd amrywiad ers ei gyflwyno) wedi cael ei gyfarwyddo gan y broses ymgynghori mwyaf cynhwysfawr hyd yma. Hysbysebwyd arolwg ar-lein yn helaeth a rhoddodd gyfle i'r cyhoedd ddweud eu dweud ar flaenoriaethau plismona Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd. Yn ogystal â'r arolwg ar-lein, cynhaliodd y Comisiynydd a'r Dirprwy Gomisiynydd 12 cyfarfod ymgynghori ar draws gogledd Cymru; mynychwyd dau o Bwyllgorau Craffu'r Awdurdod Lleol; derbyn cefnogaeth Bwrdd Cymunedau Diogelach a chynnal digwyddiad penodol ar gyfer y Trydydd Sector. Ymgynghorwyd â'r Prif Gwnstabl, fel ymgynghorai statudol o dan Adran 5 (6)(b) Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Statudol 2011 a chynhaliodd yr Heddlu arolwg dros y ffôn hefyd.

Arweiniodd y broses ymgynghori at gefnogaeth syfrdanol ar gyfer pob un o bedwar amcan strategol Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd, fodd bynnag byddai Atal Trosedd yn cael ei ailenwi'n Atal Trosedd ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, a byddai Creu Partneriaethau Effeithiol yn cael ei ailenwi'n Gweithio mewn Partneriaethau Effeithiol.

Er y byddai'r pedair blaenoriaeth yn parhau, byddent yn cael eu hail-flaenoriaethu. Yn dilyn y cyhoeddiad Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant, roedd Heddlu Gogledd Cymru ac asiantaethau sector cyhoeddus eraill hefyd wedi parhau i wynebu hinsawdd heriol iawn i weithredu ynddo. Felly, roedd lleihau'r galw trwy weithio'n effeithiol mewn partneriaeth yn hanfodol os oedd y sialens am ei diwallu, ac o ganlyniad byddai 'Gweithio mewn Partneriaethau Effeithiol' yn dod yn brif flaenoriaeth yn y Cynllun diwygiedig.

Hefyd dywedodd y PCC wrth y PCP nod tair thema gylchol wedi dod i'r amlwg o'r ymarfer ymgynghori, a oedd yn cynnwys:...

- rhif di-argyfwng 101
  - Byddai'r PCC yn parhau i fonitro'r gyfradd rhoi'r gorau ac yn derbyn diweddariadau rheolaidd ar y cynnydd sy'n cael ei wneud tuag at gyrraedd argymhellion yr HMIC.
- Swyddogion Cefnogaeth Gymunedol yr Heddlu
- Dioddefwyr diamddiffyn

- Byddai Heddlu Gogledd Cymru yn parhau i roi blaenoriaeth i rai mathau o droseddau ac yn parhau i roi blaenoriaeth i ddiogelu aelodau mwyaf diamddyffyn cymdeithas.

Croesawodd y PCP y diwygiad i'r Cynllun Heddlu a Throsedd ac ailenwi'r flaenoriaeth 'Atal Trosedd ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol', fel atal trosedd, yn arbennig gan fod ymddygiad gwrthgymdeithasol y ffordd fwyaf effeithiol o ddiogelu cymunedau a sicrhau bod pobl yn ddiogel yn y cartref ac mewn mannau cyhoeddus.

Cyfeiriwyd hefyd at y Cynllun Gweithredu, a oedd wedi ei ddyfeisio gan y Prif Gwnstabl i ganolbwyntio ar ffrydiau gwaith allweddol a oedd i'w datblygu gan yr Heddlu i gwrdd â'r amcanion heddlu a throsedd gyda'r Cynllun Heddlu a Throsedd.

Dywedodd y PCC bod y Cynllun Gweithredu yn cael ei fonitro drwy Fwrdd Gweithredol Strategol, a gadeiriwyd gan y PCC. Darparodd y Prif Gwnstabl adroddiadau manwl ac asesiadau ystadegol yn erbyn nifer o fesurau o fewn y Cynllun Heddlu a Throsedd.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Bernie McCann at blismona gweladwy a hygyrch a phroblem mewn perthynas â rota waith y PCSOs yn ardal Wrecsam. Cyfeiriodd y Cynghorydd McCann at ddigwyddiad yn ardal Wrecsam, pan oedd wedi methu cysylltu â'r PCSOs gan nad oedd yr un o'r ddau ar ddyletswydd; holodd y Cynghorydd McCann pam fod y ddau i ffwrdd ar yr un pryd ac awgrymodd os nad oedd PCSOs ar gael, yna dylai galwadau gael eu dargyfeirio i rif arall.

Dywedodd y PCC, gan fod hwn yn ddigwyddiad penodol, byddai angen rhagor o fanylion gan y Cynghorydd McCann ar ôl y cyfarfod fel y gellid ymchwilio ymhellach i'r mater.

**PENDERFYNWYD-**

**Bod diwygiad drafft i Gynllun Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru'n cael ei gymeradwyo a'i gefnogi i'w fabwysiadu yn unol ag Adran 28 (3)(b) Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011.**

223. **ADRODDIAD PENNU CYLLIDEB A PRAESEPT 2016/17**

Cyflwynodd Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru (PCC) Banel yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru (PCP) gyda'r praesept, yr oedd yn gynnig ei gyhoeddi ar gyfer 2016/17, yn unol â Pharagraff 2, Atodlen 5 Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011.

Cyflwynwyd hefyd y Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar gyfer 2016/17 i 2019/20 i'r PCP.

Er mwyn galluogi'r Prif Gwnstabl i ddarparu gwasanaeth heddlu effeithiol ac effeithlon, cynigiodd y PCC fod y praesept yn cael ei gynyddu i £68,322,021 (cynnydd o 2.47% o 2015/16), a fyddai'n cynyddu Treth y Cyngor o 2% (sy'n gyfwerth â £240.12 y flwyddyn, cynnydd o £4.68 y flwyddyn, neu 9c yr wythnos ar gyfer eiddo Band D).

Dywedodd y PCC wrth y PCP yn dilyn yr ymosodiadau terfysgol a Datganiad yr Hydref y Canghellor ym mis Tachwedd 2015, fod hyn wedi dynodi newid cyfeiriad ac nid oedd y toriadau i gyllid yr heddlu wedi bod mor fawr ag y nodwyd yn flaenorol.
Roedd hyn wedi galluogi'r PCC i adolygu'r praesept arfaethedig ac yn hytrach na argymell cynnydd o 3.5% i Dreth y Cyngor, roedd yn gallu argymell cynnydd o 2% a gohirio'r lleihad yn nifer y swyddi PCSO am flwyddyn.

Hefyd rhoddodd y Prif Swyddog Cyllid gyflwyniad i’r PCP, a oedd yn gwneud yr Aelodau’n ymwybodol o’r effaith ar Dreth y Cyngor ar gyfer 2016/17; y rhagolygon ar gyfer y tymor canolig a'r angen i barhau i wneud arbedion, oherwydd ansicrwydd parhaus; y broses tu ôl i'r cynigion o fewn yr adroddiad, a'r darlun ehangach.

Amlygodd y cyflwyniad hefyd y canlynol:

- Ariannu Adnoddau’r Heddlu ar gyfer Cymru a Lloegr 2016/17 i 2019/20:
- Mae grantiau gwrthderfysgaeth yr heddlu fwy neu lai yn aros yr un maint yn ystod y cyfnod hwn.
- Bu twf amlwg yn ariannu trawsnewid llywodraeth ganolog a gallu ychwanegol rhwng 2016/17 i 2019/20.
- Symiau a wariwyd gan y Comisiynwyr a'u Lluoedd.
- Angen i’r cynnydd ddod o braesept Treth y Cyngor dros y cyfnod.

- Dyraniadau Canolog (cyfran uchaf)
- Prosiectau mawr yn cynnwys: Biometreg Swyddfa Gartref a'r rhaglen data heddlu Genedlaethol/.

- Newidiadau i’r tybiaethau ers y Cynllun Ariannol Tymor Canolig blaenorol
- Tybiodd y Cynllun Ariannol Tymor Canolig blaenorol ostyngiad arian parod o 4% yn grant y llywodraeth.
- Yn dilyn Datganiad yr Hydref ni fyddai unrhyw doriadau mewn termau real dros 4 blynedd.
- Tybiaeth y Swyddfa Gartref oedd y byddai'r rhan fwyaf o Gomisiynwyr yn cynyddu Treth y Cyngor o 2%.
- Dim newid i ddyraniadau fformiwla yn 2016/17.

- Cyllideb arfaethedig ar gyfer 2016/17:
- Os bydd y PCC eisiau osgoi effaith y toriadau yn gyfan gwbl, byddai angen codi £2.838m ychwanegol yn Nhreth y Cyngor, a oedd yn cyfateb i gynnydd o 6.22%.
- Ymrwymiad i gynnal y sefydliad PCSO ar y lefel bresennol yn 2016/17 a chynnydd o 5 swydd Swyddog yn ystod 2016/17.

- Risgiau
- Cyhoeddiad hwyr setliad 2016-17.
- Dim cyhoeddiad o setliad 2017-18 a blynyddoedd dilynol.
- Fformiwla newydd o 2017-18.

- Darparu arbedion mewn blynyddoedd i ddod.
- Lefelau'r cronfeydd wrth gefn a ddelir gan y Comisiynwyr.

Adolygodd y PCP y cynigion a chydnabod y toriadau i gyllideb plismona o un flwyddyn i'r llall a chanmolwyd y Comisiynydd am gynhyrchu cyllideb fyddai'n darparu gwasanaeth plismona hyfyw ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

Atgoffodd Mr Jarvis yr Aelodau fod y ddeddfwriaeth yn gofyn eu bod yn cymeradwyo neu yn gwahardd praesept arfaethedig y PCC ar gyfer blwyddyn ariannol 2016/17, sef y ffigur ariannol gwirioneddol o £68,322,021. Esboniodd Mr Jarvis y gwahaniaeth rhwng y cynnydd o 2.47% mewn praesept a chynnydd cyfatebol o 2% yn Nhreth y Cyngor.

**PENDERFYNWYD:-**

**(a) Bod y Praesept yn cael ei gynyddu i £68,322,021 ar gyfer 2016.17.**

- **Mae hyn yn gynnydd o 2.47% o'r Praesept yn 2015/16.**
- **Bydd hyn yn cynyddu Treth y Cyngor o 2% - mae hyn yn gyfwerth â £240.12 y flwyddyn, cynnydd o £4.68 y flwyddyn neu 9c yr wythnos ar gyfer eiddo Band D.**

**(b) Bod y Panel yn nodi bod y toriadau o £2.838m sy'n ofynnol ar gyfer 2016/17 wedi'u canfod.**

**(c) Bod y Panel yn nodi na fydd nifer swyddi Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn gostwng yn 2016/17.**

**(d) Bod y Panel yn nodi y bydd £1.398m o'r toriadau'n cael eu hadleoli i swyddi'r rheng flaen.**

**(e) Bod y Cynllun Ariannol Tymor Canolig, sy'n cynnwys y tybiaethau canlynol yn cael ei nodi:**

- **Y bydd Treth y Cyngor yn cynyddu o 2% yn 2016/17 a 2.5% yn 2017/18, 2018/19 a 2019/20.**
- **Y bydd grantiau plismona'n gostwng o 1% ym mhob blwyddyn.**
- **Bod newidiadau i gyfraniadau yswiriant gwladol cyflogwr, fydd yn weithredol yn 2016/17 yn cael effaith sy'n gyfartal â 3% o ostyngiad grant pellach.**
-

224. **CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOLIG**

Ystyriwyd yr eitem hon fel rhan o Gofnod 223 uchod - Adroddiad Pennu Cyllideb a Praesept 2016/17.

225. **AMSERLEN GYFARFOD AR GYFER 2016/17**

Cyflwynwyd amserlen y cyfarfodydd arfaethedig ar gyfer 2016/17 Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru fel a ganlyn:

- Dydd Llun, 13 Mehefin 2016 am 2.00pm
- Dydd Llun, 19 Medi 2016 am 2.00pm.
- Dydd Llun 14 Tachwedd 2016 am 2.00p.m
- Dydd Llun, 12 Rhagfyr 2016 am 2.00pm
- Dydd Llun, 23 Ionawr 2017 am 2.00pm
- Dydd Llun 14 Mawrth 2017 am 2.00pm

Gofynnodd yr Uwch Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor fod y cyfarfod ar 13 Mehefin 2016 yn cael ei symud i 20 Mehefin, 2016 oherwydd gwrthdaro rhwng cyfarfodydd. Yn ogystal, gofynnwyd i'r PCP i gynnwys cyfarfod ychwanegol ar gyfer 31 Ionawr, 2017, rhag ofn bod y braesept yn cael ei gwrthod.

**PENDERFYNWYD-**

**Bod y cyfarfodydd a drefnwyd ar gyfer 2016/17 fel yr amlinellir uchod yn cael ei gymeradwyo, yn amodol ar y newidiadau canlynol:**

- **Symud y cyfarfod a drefnwyd ar gyfer 13 Mehefin, 2016 i 20 Mehefin 2016.**
- **Cynnwys cyfarfod ychwanegol ar gyfer 31 Ionawr 2017.**
-

226. **YSTYRIED RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL AR GYFER PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU**

Cafodd Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ei gyflwyno gyda'i Raglen Gwaith i'r Dyfodol.

Byddai'r Uwch Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor yn anfon e-bost at Aelodau'r PCP yn gofyn am bynciau i'w craffu ar gyfer 2016/17.

**PENDERFYNWYD-**

**Cymeradwyo'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol.**

227. **DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF:**

Roedd cyfarfod nesaf Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru wedi'i drefnu ar gyfer dydd Llun, 14 Mawrth 2016 am 2.00pm.

(Daeth y cyfarfod i ben am 2.45 pm)

SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

OFFICE OF THE POLICE & CRIME COMMISSIONER NORTH WALES

Councillor Glenys Diskin
Chair
Police and Crime Panel
Conwy County Borough Council
Bodlondeb
Conwy LL32 8DU

Ein Cyf / Our Ref:-WR/MM

23 Chwefror/February 2016

Annwyl Glenys

**Gwrandawiad Cadarnhau'r Prif Weithredwr**

Mae Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 yn nodi, o dan adran 1(9) bod rhaid i'r comisiynydd heddlu a throsedd hysbysu'r Panel Heddlu a Throsedd o bob penodiad arfaethedig gan y comisiynydd o brif weithredwr ar gyfer swyddfa'r comisiynydd.

Ysgrifennaf felly i ofyn i'r Panel gynnal gwrandawiad cadarnhau i ystyried fy enwebiad ar gyfer y swydd statudol o brif weithredwr.

Rwy'n amgáu â'r llythyr hwn adroddiad i'r Panel Heddlu a Throsedd ei ystyried.

Cofion cynnes.

Dear Glenys

**Chief Executive Confirmation Hearing**

The Police Reform and Social Responsibility Act 2011 provides, under schedule 1(9) that the police and crime commissioner must notify the Police and Crime Panel of each proposed appointment by the commissioner of the commissioner's chief executive.

I am therefore writing to request that a confirmation hearing be convened for my nomination of chief executive to be considered.

Please find attached to this letter a report for the consideration of the Police and Crime Panel.

With kind regards

Winston Roddick CB QC
Comisiynydd Heddlu a Throsedd / Police and Crime Commissioner

Amg/enc

Glan y Don, Bae Colwyn LL29 8AW
Ffôn / Tel: 01492 805486
Ebost / Email: OPCC@nthwales.pnn.police.uk
Glan y Don, Colwyn Bay LL29 8AW
Ffacs / Fax: 01492 805489

**OFFICE OF THE POLICE AND CRIME COMMISSIONER NORTH WALES**

**7th March 2016**

**Appointment of Chief Executive**

**Report of Police and Crime Commissioner**

## 1. INTRODUCTION

**1.1** The purpose of this report is to notify the Police and Crime Panel ("the Panel") of the proposed appointment of a chief executive for the Police and Crime Commissioner ("the Commissioner") in north Wales.

## 2. BACKGROUND

**2.1** The Police Reform and Social Responsibility Act 2011 ("the Act") requires the Panel to scrutinise senior appointments proposed by the Commissioner. Schedule 1, paragraph 9 (1) of the Act defines senior appointments as the Commissioner's Chief Executive, Chief Finance Officer and the Deputy Police and Crime Commissioner.

**2.2** The Commissioner must notify the Panel of the following information:

2.2.1 The name of the person he is proposing to appoint;

2.2.2 The criteria used to assess the suitability of the candidate for the appointment;

2.2.3 Why the candidate satisfies those criteria; and

2.2.4 The terms and conditions on which the candidate is to be appointed

**2.3** Schedule 1, paragraph 10 of the Act states that the Panel must review the proposed appointment and make a report to the Commissioner on the proposed appointment, including a recommendation to the Commissioner as to whether or not the candidate should be appointed. This must be done within a period of three weeks beginning with the day on which the Panel receives notification from the Commissioner of the proposed appointment.

**2.4** Schedule 1, paragraph 11 of the Act states that the Panel must hold a confirmation hearing before making a report and recommendation to the Commissioner in relation to the proposed appointment.

**2.5** Schedule 1, paragraph 12 gives the Commissioner the right to accept or reject the Panel's recommendation and must notify the Panel of his decision.

## 3. ISSUES FOR CONSIDERATION

**3.1 The name of the person he is proposing to appoint;**

3.1.1 The Commissioner is proposing to appoint Stephen Hughes as chief executive.

**3.2 The criteria used to assess the suitability of the candidate for the appointment;**

3.2.1 The criteria used to assess the suitability of the candidate are provided in the post profile set out in Appendix 1.

**3.3 Why the candidate satisfies those criteria**

3.3.1 The selection and appointment process was open and transparent from the outset. The Chair of the Panel was informed on 7th December 2015 of the vacancy and that the Commissioner would be advertising the position.

3.3.2 The Commissioner provided an explanation to the Panel on 14th December 2015 as to the statutory requirement for him to recruit a chief executive and how the vacancy had arisen.

3.3.3 An advertisement was placed with newspapers which had coverage over the whole of the policing area, on the Commissioner's website, via the six local authorities in north Wales, Association of Police and Crime Commissioner's Chief Executives and social media.

3.3.4 A total of 17 applications were received from a variety of candidates. The shortlisting exercise was carried out by the Commissioner, Deputy Police and Crime Commissioner and a Human Resources Lead from North Wales Police Force. The composition of the Interview Panel was made up with the same officers.

3.3.5 Five applicants were invited for an interview on 1st and 2nd February. Interview questions were asked seeking evidence of the key skills required in the post profile.

3.3.6 The candidates' answers were assessed using a basic 0 – 5 scoring mechanism. Candidates were assessed as to whether they met the key elements of the post profile and competencies.

3.3.7 Mr Stephen Hughes was the strongest candidate at interview. His skills, experience and enthusiasm made him the ideal candidate for the role of chief executive.

3.3.8 Mr Hughes had worked for North Wales Police since 2003, initially as a Partnership Analyst and later as Business Manager. He brings to the role of chief executive considerable experience of policing, analytical skills, community safety and leadership skills. He has shown these skills during the last 12 months as acting chief executive in the commissioner's office.

**3.4 The terms and conditions on which the candidate is to be appointed**

3.4.1 The chief executive will be a member of staff of the Office of the Police and Crime Commissioner; this is a politically restricted post. The post of chief executive is a permanent post attracting a starting salary of £75, 339. The contract of appointment will be based on 37 hours per week although it is acknowledged that as a senior officer the post holder may have to exceed these hours for which no recompense is payable. The post is located at the commissioner's office, Police Headquarters, Colwyn Bay. His terms of appointment are otherwise standard terms for all police staff in accordance with national police staff pay and conditions of service.

## 4. RECOMMENDATIONS

**4.1** The Panel are requested to consider the proposed appointment of Mr Hughes and to confirm his appointment.

| | |
|---|---|
| Appendix 1 | Post Profile, Person Specification and Terms and Conditions |

# DISGRIFIAD SWYDD

| | |
|---|---|
| **Teitl y Swydd:** | **Prif Weithredwr a Swyddog Monitro** |
| **Yn Atebol i:** | **Comisiynydd Heddlu a Throsedd** |
| **Tîm:** | **Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd - 9** |
| **Cyflog:** | **Pwynt 71-74** |
| **Oriau:** | **37 awr yr wythnos. Oherwydd natur y rôl, bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd fod yn hyblyg o ran eu hargaeledd a chyfanswm yr oriau y byddant yn eu gweithio bob wythnos. Disgwylir y bydd cyfran fechan o'r dyletswyddau'n cael eu cyflawni gyda'r nosau ac ar benwythnosau ac ni fydd unrhyw gydnabyddiaeth ychwanegol am hyn.** |
| **Lleoliad:** | **Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd, Pencadlys yr Heddlu, Glan y Don, Bae Colwyn LL29 8AW** |

**Crynodeb o'r Swydd**

- Cydweithio â'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd er mwyn galluogi darpariaeth y weledigaeth, y strategaeth a'r blaenoriaethau perthnasol.
- Sicrhau arweinyddiaeth weithredol a strategol Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd drwy reolaeth ac ymgysylltiad parhaus.
- Hwyluso archwiliadau manwl gywir a phriodol o weithgareddau'r Heddlu.

**Perthnasau Gwaith Allweddol**

- Y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Dirprwy Gomisiynydd
- Prif Swyddogion Cyllid
- Yr holl staff a gyflogir gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd
- Yr Heddlu, yn enwedig y Prif Gwnstabl a'r Uwch Swyddogion
- Y Panel Heddlu a Throsedd
- Cymunedau Gogledd Cymru
- Rhwydwaith plismona ehangach Cymru a Gogledd Orllewin Lloegr
- Sefydliadau perthnasol y Llywodraeth, cymdeithasau a phartneriaid strategol y sector cyhoeddus.

**Cyfrifoldebau Swyddogaethol, Rheoli ac Arweinyddiaeth Allweddol**

- Sicrhau darpariaeth cyngor priodol i'r Comisiynydd.
- Arwain datblygiad parhaus a darpariaeth gweithgareddau a gweithdrefnau SCHTh

- Darparu arweinyddiaeth glir ac amlwg i staff SCHTh gan gynnwys cyfrifoldeb am eu datblygiad parhaus a'u hyfforddiant a chydweithio'n uniongyrchol â'r CHTh mewn perthynas â'r amcanion personol a datblygiad.
- Sicrhau bod SCHTh yn cyflawni ei ddyletswyddau a'i gyfrifoldebau tuag at gydraddoldeb ac amrywiaeth yn unol â deddfwriaethau perthnasol a'u bod yn hyrwyddo'r ymrwymiad i gydraddoldeb ac amrywiaeth ym mhopeth y bydd SCHTh yn ei wneud.
- Ar y cyd â'r Prif Swyddog Cyllid, sicrhau priodoldeb ym musnes y Comisiynydd gan gynnwys gwneud trefniadau priodol ar gyfer gweithdrefnau tendro a gosod contractau.
- Cyflawni dyletswyddau'r Prif Weithredwr a benodwyd o dan Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 er mwyn galluogi a chynorthwyo'r SCHTh i gyflawni ei holl swyddogaethau yn effeithiol ac yn effeithlon.
- Cyflawni dyletswyddau a chyfrifoldebau statudol Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig a'r Swyddog Monitro.

**Cynllunio Strategaeth ac Adnoddau**

- Meddwl yn strategol ac arwain SCHTh i ddatblygu gweledigaeth a strategaeth glir ac effeithiol ar gyfer y tymor hir, ynghyd â pholisïau priodol.
- Ar y cyd â'r prif swyddog(ion) cyllid, arwain datblygiad strategol SCHTh ym meysydd cyfrifeg strategol, rheoli gwybodaeth, rheoli risgiau strategol, y strategaethau adnoddau dynol a dysgu a datblygu gan sicrhau bod SCHTh yn cydymffurfio â'r deddfwriaethau cyflogaeth presennol.
- Bod yn Arweinydd Strategol mewn perthynas â gwaith partneriaeth.
- Ar y cyd â'r prif swyddog(ion) cyllid, goruchwylio'r gwaith o gynllunio ariannol ac agweddau rheoli cyllideb, adnoddau ac asedau'r SCHTh.
- Gyrru gweithrediad strategaethau corfforaethol SCHTh a'i fusnes o ddydd i ddydd gan sicrhau bod trefniadau llywodraethu effeithiol yn eu lle er mwyn galluogi SCHTh i fonitro, adolygu a gwella'i berfformiad ei hun.
- Cefnogi SCHTh i archwilio perfformiad yr Heddlu a chefnogi gwelliant parhaus yn SCHTh ac yn yr Heddlu.
- Paratoi SCHTh ar gyfer arolygiadau gan y cyrff archwilio perthnasol.
- Drwy ymgynghoriad priodol â'r Comisiynydd etholedig, datblygu proses gynllunio tymor byr, canolig a hirdymor ar gyfer dyfodol SCHTh.

**Comisiynu a Darparu Gwasanaeth**

- Sicrhau ymgysylltiad effeithiol ac effeithlon â phartneriaid mewnol ac allanol a budd-ddeiliaid mewn perthynas â chomisiynu a darparu gwasanaeth a lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol.
- Bod yn atebol am berfformiad SCHTh ym mhob agwedd o gomisiynu.
- Sicrhau ymgysylltiad effeithiol â'r Prif Gwnstabl a holl staff perthnasol yr heddlu wrth gynllunio a rheoli busnes SCHTh.
- Sicrhau bod SCHTh yn cyfrannu at ystyriaethau cenedlaethol o ran materion sy'n ymwneud â phlismona a rheoli busnes SCHTh. Cynrychioli SCHTh mewn cyfarfodydd ar lefel uchel gyda'r Swyddfa Gartref, Arolygiaeth Heddluoedd Ei Mawrhydi, Cymdeithas Comisiynwyr Heddlu a

Throsedd, Cymdeithas Llywodraeth Leol a chyrff allanol eraill ar lefel ranbarthol a chenedlaethol.

## Ymgysylltiad a Gwybodaeth

- Darparu, adolygu a gwella perfformiad yn erbyn y strategaeth wybodaeth ym meysydd cyfathrebu, ymgysylltiad ac ymgynghoriad.
- Sicrhau bod asesiadau o anghenion strategol effeithiol yn cael eu hymgymryd â nhw sy'n arddangos dealltwriaeth y cymunedau a wasanaethir gan alluogi aliniad cyllidebau a blaenoriaethu effeithiol.
- Rhoi a dosbarthu gwybodaeth berthnasol a chyngor i SCHTh er mwyn eu galluogi i herio perfformiad strategol ac ariannol yr Heddlu ble bo hynny'n briodol.
- Cefnogi SCHTh i godi ei broffil a chyfathrebu ei werthoedd, strategaethau, cyflawniadau a safbwyntiau.
- Cynrychioli a hyrwyddo buddiannau'r SCHTh drwy ddatblygu a chynnal partneriaethau strategol effeithiol â sefydliadau'r sector cyhoeddus/preifat/gwirfoddol yn y gymuned leol ac mewn cymdeithasau cenedlaethol a rhanbarthol.
- Datblygu a gweithredu ymgysylltiad cyfathrebu dwyffordd effeithiol â phob carfan o'r gymuned.

## Craffu a Pherfformiad

- Cyfrannu at ddarpariaeth effeithiol ac effeithlon y Cynllun Heddlu a Throsedd, ynghyd ag unrhyw gynlluniau gweithredu cysylltiedig.
- Datblygu a chynnal perthynas waith adeiladol â'r Panel Heddlu a Throsedd ar gyfer yr ardal.
- Sicrhau gweithrediad effeithiol ac effeithlon swyddogaethau archwilio mewnol ac allanol ac unrhyw agweddau eraill o reolaeth fewnol neu arolygon allanol.
- Goruchwylio a sicrhau bod cwynion yn cael eu rheoli'n effeithiol ac yn effeithlon.

**MANYLEB YR UNIGOLYN**

## Addysg/Hyfforddiant

- Gradd a/neu gymhwyster proffesiynol priodol neu dystiolaeth o'r sgiliau deallusol sy'n gysylltiedig ag addysg ar y lefel hon.
- Ymrwymiad i ddatblygiad personol parhaus
- Dymunol – MBA neu gymhwyster rheoli ôl-raddedig arall
- Dymunol – Cymhwyster cyfreithiol

## Sgiliau/Gallu/Gwybodaeth

- Y gallu i feddwl yn annibynnol ac yn strategol, gan gymryd safbwynt hirdymor
- Gallu i feithrin parch swyddogion a chydweithwyr ar bob lefel, yn fewnol ac yn allanol gyda phartneriaid a rhanddeiliaid
- Y gallu i oruchwylio a monitro cwblhad gwaith a dyletswyddau o fewn y cyfraddau amser penodedig, yn arbennig felly o ran ymdrin â chwynion yn erbyn y prif gwnstabl fel a phan y byddant yn digwydd

- Y gallu i gymryd cyfrifoldeb hollgynhwysfawr am werthoedd swyddfa'r comisiynydd heddlu a throsedd
- Sicrhau fod yr holl brosesau busnes yn gyfredol ac yn addas i'r pwrpas a bod gwelliant parhaus wedi'i wreiddio yn arferion y swyddfa
- Sgiliau arwain profedig, y gallu i ysgogi eraill, gweledigaeth a meddwl yn flaengar
- Sgiliau llysgenhadol effeithiol – y gallu i gynrychioli'r Comisiynydd gydag amrywiaeth eang o fudd-ddeiliaid a charfanau o'r gymuned
- Y gallu i feithrin a datblygu strategaethau corfforaethol a'u troi yn weithredoedd effeithiol
- Gallu i ddirprwyo gweithredoedd a chyfrifoldebau mewn modd priodol, wrth sicrhau nad yw canlyniadau a gweithgareddau'r Comisiynydd yn cael eu cyfaddawdu
- Sgiliau personol ac ymwybyddiaeth a sensitifrwydd gwleidyddol tra datblygedig a phrofedig gyda'r gallu i ddwyn perswâd, trafod a rheoli
- Cyfathrebwr huawdl ac effeithiol â chynulleidfaoedd o bob math gyda steil personol dynamig sy'n hwyluso ymgysylltiad
- Dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o'r heriau sy'n wynebu plismona gan gynnwys amgylchedd gwleidyddol Gogledd Cymru, yr Heddlu a rhanddeiliaid perthnasol
- Gallu i gydbwyso gwahanol anghenion, dadansoddi gwybodaeth berthnasol a datblygu strategaethau a chynlluniau a fydd yn cyflawni gweledigaeth y Comisiynydd
- Lefel uchel o sgiliau rheoli perfformiad
- Sgiliau llythrennedd, rhifedd a dadansoddol rhagorol ac agwedd greadigol tuag at ddatrys problemau
- Y gallu i ddelio â materion cymhleth yn gyflym ac yn adeiladol
- Y gallu i weithio o dan bwysau
- Dealltwriaeth o a pharch tuag at y broses ddemocrataidd a sut mae cyrff anweithredol yn gweithredu
- Gallu i ymdrin yn effeithiol â'r cyfryngau gan sicrhau ffydd y cyhoedd yn y Comisiynydd a'i swyddfa
- Gwybodaeth uwch o becynnau Microsoft Office a dealltwriaeth o'r we gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol
- Mae'r gallu i siarad Cymraeg yn un o ofynion y swydd
- Rhaid bod â thrwydded yrru lawn y DU

**<u>Profiad / hanes blaenorol</u>**

- Profiad o weithio ar lefel uwch reoli
- Hanes blaenorol cadarn o reoli newid yn llwyddiannus a darparu gwell perfformiad
- Yn dangos ymrwymiad clir i degwch ac amrywiaeth a safonau uchel o ymddygiad proffesiynol.
- Tystiolaeth o waith partneriaeth effeithiol a'r gallu i ddylanwadu a darparu
- Profiad o reolaeth ariannol ar lefel strategol ynghyd â phrofiad o reolaeth gyllidebol lwyddiannus
- Profiad o chwarae rhan uniongyrchol mewn polisïau ar lefel corfforaethol / datblygiad strategaethol
- Tystiolaeth o drawsnewid uchelgeisiau strategol tymor hir yn gynlluniau gweithredu a rheoli gweithrediad y cynlluniau hyn gan eu hadolygu a'u newid yn ôl yr angen
- Parodrwydd a gallu i weithio y tu allan i oriau swyddfa yn ôl yr angen
- Mwynhau'r her o newid, datblygu a gwella
- Bod â steil gadarn ond diplomyddol sy'n gallu adeiladu consensws a pherthnasau oesol ac sy'n dod â lefelau priodol o urddas i'r penodiad

**<u>Ymddygiadau Allweddol</u>**

Mae'r galluoedd fydd yn cael eu mesur wedi'u rhestru isod:

**Arweinyddiaeth / Rheolaeth**

Unigolyn sy’n defnyddio ei allu’n effeithiol ac sy’n arwain eraill drwy roi arweiniad a ffocws ac sy’n rhoi cefnogaeth ac ysgogiad er mwyn cyflawni nodau sefydliadol.

**Persbectif Strategol**

Edrych ar faterion yn eang er mwyn gallu cyflawni nodau’r sefydliad. Meddwl ymlaen ac yn paratoi ar gyfer y dyfodol drwy greu strategaethau effeithiol. Mae gan yr unigolyn hwn ymwybyddiaeth o’r ‘darlun mawr’ er mwyn cynorthwyo gweithrediad prosiectau.

**Pendantrwydd ac Atebolrwydd**

Gwneud penderfyniadau mewn modd prydlon a dewr, yn sefyll wrth y penderfyniadau hynny, yn edrych ar gynnydd, yn disgwyl cael ei ddal yn atebol ac yn osgoi dwysâd diangen.

**Cyfathrebu**

Cyfleu negeseuon i amrywiaeth o gynulleidfaoedd mewn modd clir, cryno a rhesymegol.

**Trafod a dylanwadu**

Dylanwadu, darbwyllo neu greu argraff ar eraill mewn modd sy’n achosi derbyniaeth, cytundeb neu newid ymddygiad.

## Diweddariad ar gyfer y Panel Heddlu a Throsedd
## 7 Mawrth 2016
## *Winston Roddick CB QC, Comisiynydd Heddlu a Throsedd, Gogledd Cymru*

Hwn yw fy adroddiad i'r Panel ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Tachwedd 2015 a diwedd mis Ionawr 2016. Nid yw'n ymwneud â'r gofynion adrodd statudol penodol mewn perthynas â'r praesept, penodiadau i'm swyddfa, y diwygiadau i'm Cynllun Heddlu a Throsedd, na'n hadroddiad blynyddol. Mae'n ymwneud yn bennaf â swyddogaeth ehangach y panel dan adran 28(6) o Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 (y Ddeddf) i adolygu neu graffu ar benderfyniadau a wnaed neu gamau gweithredu eraill a gymerwyd gennyf fi fel y Comisiynydd Heddlu a Throsedd (y Comisiynydd) ar gyfer Gogledd Cymru ac i gyflwyno adroddiadau ac argymhellion i mi yn y cyswllt hwnnw. Hefyd, yn unol ag adran 13(1) o'r Ddeddf, mae'n rhoi gwybodaeth i'r panel y mae'r panel yn rhesymol yn gofyn amdani gan y Comisiynydd er mwyn cyflawni ei swyddogaethau (y ceisiadau penodol).

## Adran Un: Fy ngwaith o ran craffu ar Heddlu Gogledd Cymru

Diben yr adran hon yn fy adroddiad yw dangos sut yr wyf wedi bod yn cyflawni fy mhrif swyddogaeth o ran craffu ar Heddlu Gogledd Cymru. Rwy'n gwneud hynny trwy fesur perfformiad yr heddlu o ran cyflawni'r pedwar amcan yn fy nghynllun yn erbyn y mesurau a nodwyd. Fy mhrif gyfrwng ar gyfer cyflawni'r swyddogaeth honno yw'r Bwrdd Gweithredol Strategol yr wyf fi'n ei gadeirio ac y mae'r prif gwnstabl a'i uwch swyddogion yn eistedd arno.

Fel yr eglurais mewn adroddiadau cynharach, cyn bob un o gyfarfodydd y Bwrdd Gweithredol Strategol, mae'r prif gwnstabl yn darparu ystadegau ynghylch troseddau a gwybodaeth arall gan gynnwys graffiau, tablau a siartiau (o'r math a ddangosir isod) ar fy nghyfer, a thrwy gyfeirio at yr ystadegau hyn a'r tueddiadau y maent o bosibl yn eu datgelu a'r mesurau a grybwyllais yn gynharach yr wyf yn craffu ar y perfformiad.

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar berfformiad yr heddlu yn erbyn y mesurau yn fy nghynllun ar gyfer 2015/16 (a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2015).

Fe gyhoeddais fy nghynllun heddlu a throsedd gwreiddiol yn 2013, yn fuan wedi i mi gael fy ethol yn Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ym mis Tachwedd 2012. Yn y cynllun hwnnw dywedais y byddwn yn ei adolygu'n rheolaidd yng ngoleuni newidiadau i ganllawiau'r Ysgrifennydd Gwladol neu unrhyw newid sylweddol arall mewn amgylchiadau. Bydd fy nhrydydd diwygiad o'm Cynllun Heddlu a Throsedd yn cael ei gyhoeddi ym mis Ebrill 2016. Ei ddiben yw sicrhau bod y cynllun a'i amcanion yn parhau i adlewyrchu blaenoriaethau pobl Gogledd Cymru.

## Amcan Heddlu a Throsedd 1: Atal trosedd


Bellach ceir chwe mesur a ddefnyddir i fesur perfformiad yn erbyn yr amcan hwn, sef:

1. Lefel yr holl droseddau a gofnodir,
2. Y lefel o droseddau sy'n seiliedig ar ddioddefwyr,
3. Y lefel o droseddau wedi'u datrys, yn ôl math o drosedd,
4. Y lefel o ymddygiad gwrthgymdeithasol sydd wedi'i gofnodi,
5. Y lefel o fyrgleriaethau domestig,


6. Nifer y swyddogion gwirfoddol, gwirfoddolwyr a chadetiaid gweithredol.

Nid targedau perfformiad mor mesurau. Eu diben yw fy nghynorthwyo i gwestiynu'r ffigyrau perfformiad ac egluro'r prif faterion y byddaf yn eu hystyried wrth wneud yr asesiad hwnnw. Cyflwynir yr wybodaeth isod er mwyn galluogi aelodau'r panel, nid i graffu ar berfformiad yr heddlu, ond i weld sut yr wyf fi wedi craffu ar yr amcan penodol hwn.

Mae'r siartiau isod, a gynhyrchwyd gan y Prif Gwnstabl, yn dangos nifer yr holl droseddau a gofnodwyd a'r troseddau sy'n seiliedig ar ddioddefwyr a gofnodwyd bob 3 mis ers mis Ebrill 2010:




Ffigur 1: Yr holl droseddau a gofnodwyd yn fisol hyd at fis Ionawr 2016 (ffynhonnell: Heddlu Gogledd Cymru)




Ffigur 2: Troseddau sy'n seiliedig ar ddioddefwyr a gofnodwyd yn fisol hyd at fis Ionawr 2016 (ffynhonnell: Heddlu De Cymru)

Mae'r ffigyrau ar gyfer wythnosau 1 i 42 (1 Ebrill 2015 – 4 Ionawr 2016) yn dangos bod yr holl droseddau a gofnodwyd wedi cynyddu 3.3% o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd a bod troseddau sy'n seiliedig ar ddioddefwyr wedi cynyddu 3.7%. Deallaf fod y cynnydd mewn troseddau sy'n seiliedig ar ddioddefwyr yn cael ei sbarduno gan godiadau ym meysydd trais a difrod troseddol, y ceir nifer uchel o droseddau ynddynt. Bydd y Panel yn cofio fy niweddariad yn y cyfarfod diwethaf a oedd yn ymwneud â'r ffaith bod y cynnydd mewn trais i'w briodoli'n rhannol i newidiadau mewn prosesau cofnodi

troseddau. Mae troseddau treisgar hefyd yn cynnwys trais domestig ac yn adlewyrchu mwy o hyder ymhlith dioddefwyr i ddod ymlaen a riportio troseddau domestig.


Mae gostyngiadau mewn troseddau meddiangar yn parhau gyda gostyngiad o 7.5% mewn byrgleriaethau domestig, a gostyngiad o 10.8% mewn byrgleriaethau annomestig. Mae canran y troseddau dwyn o siop yn dal i fod yn is, gan ostwng 6.8% ac mae troseddau meddiangar eraill wedi gostwng 7.2%.

Mae gweithgarwch gweithredol yr heddlu wedi bod yn canolbwyntio ar leihau niwed i'r eithaf yn ystod cyfnod y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd. Mae lleihau trais a achoswyd gan alcohol ar ein strydoedd wedi cael ei dargedu gyda chynlluniau manwl wedi'u datblygu gyda'n partneriaid, sydd wedi cynnwys defnyddio canolfannau llesiant, bugeiliaid stryd, marsialiaid tacsi a mudiadau gwirfoddol eraill. Datblygwyd ymgyrchoedd penodol ar draws pob ardal gan roi sylw i weithgarwch gorfodi ar safleoedd trwyddedig gan gynnwys defnyddio cŵn cyffuriau goddefol.

Un elfen allweddol o'r cynlluniau fu darparu ymateb pwrpasol i drais domestig ar nosweithiau allweddol gan amcanu at gynyddu i'r eithaf y cyfle i ddiogelu'r dioddefwr gan gymryd camau gorfodi yn erbyn y cyflawnwyr.

Er mwyn atal lladradau, cynhaliwyd patrolau rhagfynegol ar safleoedd manwerthu ledled gogledd Cymru a fu o gymorth i ddarparu presenoldeb amlwg gan yr heddlu yng nghanol ein trefi. I danategu'r gweithgarwch hwn cynhaliwyd ymgyrch wedi'i gydgysylltu yn y cyfryngau gyda phartneriaid.

Dros fy nhymor yn ei gyfanrwydd, mae troseddau ar y cyfan wedi gostwng 11.7% (cofnodwyd 42,586 o droseddau yn 2011/12 a chofnodwyd 37,607 dros y cyfnod treigl diwethaf o 12 mis) ac mae troseddau sy'n seiliedig ar ddioddefwyr wedi gostwng 10.5%.




Ffigur 3: Ymddygiad Gwrthgymdeithasol a Gofnodwyd yn Chwarterol hyd at fis Ionawr 2016 (ffynhonnell: Heddlu Gogledd Cymru)

Mae lefelau Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yn dal i fod yn sylweddol isel yn enwedig o ystyried cyfnod y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd sydd newydd fod. O ganlyniad ni fu unrhyw effaith dymhorol eleni. Cafodd cynlluniau i ddarparu presenoldeb amlwg a sicrwydd ar gyfer digwyddiadau i droi goleuadau Nadolig ymlaen a dyddiadau allweddol ym mis Rhagfyr eu cyflawni. Arweiniodd hyn at ostyngiad o un flwyddyn i'r llall o 13.2%.

Lansiwyd yr ymgyrch amlasiantaeth Diogela Dy Ddiod gyda'r nod o leihau'r alcohol y mae partïwyr yn ei yfed.

Mae llawer o ymgyrchoedd sy'n gysylltiedig ag Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yn mynd rhagddynt. Nod y gweithrediadau hyn yw:

- Lleihau Ymddygiad Gwrthgymdeithasol a Throseddau yn yr ardaloedd dynodedig lle mae hyn yn broblem fawr;
- Dal y rhai sy'n gyfrifol a'u cael yn euog;
- Rhoi hysbysiadau gwasgaru i unrhyw rai sy'n achosi anhrefn;
- Casglu cudd-wybodaeth a
- Rhoi sicrwydd i'r cyhoedd.

Mae bodlonrwydd dioddefwyr ar y profiad cyfan yn 77% ar ôl bron i flwyddyn gyfan o arolygon.

**Cwnstabliaid Arbennig:**

Bu cynnydd sylweddol yn nifer y cwnstabliaid arbennig dros y flwyddyn ddiwethaf. Ar ddechrau'r flwyddyn ariannol roedd 115 o gwnstabliaid arbennig, heddiw mae 174, gydag 17 o recriwtiaid pellach yn ymuno cyn diwedd mis Mawrth.

Nod yr Heddlu yw bod â 300 o Gwnstabliaid Arbennig erbyn diwedd 2017/18 ac mae ar hyn o bryd ar y trywydd cywir i gyflawni'r cynlluniau uchelgeisiol hyn.

Dros gyfnod y Nadolig chwaraeodd cwnstabliaid arbennig ran allweddol gan gefnogi plismona lleol, yn fwyaf nodedig o ran cefnogi mentrau'r heddlu mewn perthynas ag economi hwyr y nos a'r ymgyrch yfed a gyrru. Ar rai o'r nosweithiau allweddol, cafodd dros 50 o gwnstabliaid arbennig eu lleoli i gefnogi swyddogion heddlu.

Gyda'r nos ar ddydd Gŵyl San Steffan, roedd saith cwnstabl arbennig yn bresennol i gefnogi swyddogion heddlu gyda'r llifogydd helaeth yn ardal Biwmares, ac fe chwaraeon nhw ran hollbwysig yn y gwaith o ddiogelu trigolion a oedd yn wynebu risg posibl o ganlyniad i lifogydd a oedd yn codi.

Ym mis Mawrth 2016, bydd 11 o Gwnstabliaid Arbennig, sy'n gwneud eu hail flwyddyn yn y cymhwyster Sylfaen mewn Astudiaethau Plismona, yn ymgymryd a chynllun peilot lle byddant yn gweithio ochr yn ochr â'u cydweithwyr rheolaidd am gyfnod o 10 wythnos. Fel rhan o hyn byddant yn gweithio gyda swyddogion patrôl, diogelwch cymunedol, dalfa a phlismona ffyrdd, gan weithio sifftiau llawn. Bydd hyn yn rhoi'r cyfle i'r Cwnstabliaid Arbennig hynny ddatblygu eu sgiliau ymhellach, ac yn rhoi'r cyfle iddynt ddeall rôl y cwnstabl heddlu yn well.

**Gwirfoddolwyr Cymorth yr Heddlu:**

Ar hyn o bryd mae 75 o wirfoddolwyr cymorth yr heddlu gydag 16 arall o fewn y broses recriwtio ar hyn o bryd, sy'n disgwyl i gael eu cyfweld, fetio a.y.b. Mae'r gwirfoddolwyr yn gweithio ar draws rolau amrywiol. Yn ddiweddar, mae gweithgarwch recriwtio wedi arafu ychydig ond nid yw hyn yn anarferol o ran recriwtio gwirfoddolwyr.

Mae'r gwaith o ailddatblygu'r wefan gwirfoddolwyr cymorth yr heddlu wedi cael ei gwblhau, ond bydd y cynnwys yn dal i dyfu a datblygu, er enghraifft bydd adran newydd o'r enw "cwrdd â'r gwirfoddolwr".

Mae mwy o rolau sydd wedi cael eu datblygu ac sy'n mynd trwy brosesau'r Heddlu cyn iddynt gael eu cymeradwyo. Bydd diweddariadau ar y rhain yn cael eu darparu unwaith y byddant wedi cael eu cymeradwyo ac yn gallu cael eu cyflwyno.

Mae'r Heddlu bellach wedi dechrau ei raglen Gwylio Cyflymder Cymunedol gyntaf ar gyfer Abermorddu a Chaergwrle ac mae dau grŵp pellach yn y broses o gael eu sefydlu. Mae'r rhaglen hon yn ceisio hyfforddi aelodau o'r cyhoedd i gyflawni eu gweithgarwch gwylio cyflymder eu hunain mewn ardaloedd sydd â phryderon dynodedig ynghylch goryrru, gyda llythyrau dilynol yn cael eu hanfon at yrwyr. Mae'r dull hwn wedi bod yn llwyddiannus mewn ardaloedd eraill.

**Cadetiaid:**

Fel yr hysbyswyd y Panel yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr, mae cyfanswm o 60 o gadetiaid wedi ymuno â Heddlu Gogledd Cymru bellach yn dilyn noson sefydlu â nifer dda iawn yn bresennol ynddi gyda'r nos ar 30 Medi. Mae'r cadetiaid eisoes wedi dechrau dilyn rhaglen ddysgu (y cytunwyd arni'n genedlaethol) sy'n para am ddwy flynedd. Mae'r heddlu'n dechrau'r broses o adnabod arweinwyr ar gyfer y ffrwd newydd o gadetiaid newydd yn ddiweddarach yn y flwyddyn.


Cafodd yr unedau cadetiaid eu sefydlu ym mis Awst a mis Medi 2015 ym Mangor, y Rhyl a Glannau Dyfrdwy.

Mae'r cadetiaid wedi cael eu defnyddio mewn amryw ddigwyddiadau ymgysylltu â'r gymuned megis gorymdeithiau Sul y Cofio; ymweliad Brenhinol; diwrnodau hwyl mewn ysgolion ac ymgyrch diogelwch adeg y Nadolig ym Mhrifysgol Bangor.

## Amcan Heddlu a Throsedd 2: Darparu'r ymateb priodol

Y pedwar mesur ar gyfer yr amcan hwn fel a nodir yn fy nghynllun yw: (1) cyfartaledd amseroedd ymateb yr heddlu i argyfyngau; (2) y nifer o alwadau difrys a nodir fel 'galwadau wedi'u gadael'; (3) cyflawniad y targed arbedion ar gyfer 2015/16 yn cael ei gyflawni; a (4) Yr adborth a dderbynnir drwy arolygon dioddefwyr (yn enwedig lefelau bodlonrwydd).

Mae cyfartaledd amseroedd ymateb yr heddlu'n dal i fod yn sefydlog ar 14.7 munud.




Ffigur 4: Cyfradd o ran galwadau difrys a nodir fel galwadau wedi'u gadael hyd at wythnos 42 (ffynhonnell: Heddlu Gogledd Cymru)

Gwneir gwaith rheolaidd i graffu ar y gyfradd o ran alwadau difrys a nodir fel galwadau wedi'u gadael, a thua 5.0% yw'r gyfradd ar hyn o bryd, sy'n ostyngiad o 0.5 pwynt canran o'i gymharu â'r gyfradd o 5.5% yr adroddwyd arno wrth y Panel ym mis Rhagfyr, ond sy'n dal yn gynnydd o 2.2% o flwyddyn i flwyddyn.

Ysgrifennodd y Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd at bob aelod o'r Panel ar 14 Hydref 2015 i roi crynodeb ysgrifenedig o'r pwyntiau a wnaed gennyf yng nghyfarfod y Panel ar 21 Medi ynghylch galwadau difrys a nodir fel rhai wedi'u gadael.

Mae Canolfan Reoli'r Heddlu a thimau Plismona Lleol yn parhau i gydweithio i ddylanwadu ar y gostyngiad yn nifer y rhai sy'n gwneud galwadau niwsans dro ar ôl tro. Rydym yn dal i dreialu cynllun yn Wrecsam gydag apwyntiadau'n cael eu gwneud gan staff cownter blaen i ryddhau mwy o gapasiti yn yr ystafell reoli.

Fel yr wyf wedi crybwyll wrth y Panel yn flaenorol, deallaf y gallai'r cynnydd yn y gyfradd o ran galwadau a nodir fel rhai wedi'u gadael gael ei briodoli i newidiadau i'r model staffio yn yr ystafell reoli. Teimlaf fod yn rhaid i mi bwysleisio wrth y Panel Heddlu a Throsedd ar y cam hwn bod y newidiadau i'r model staffio yn yr ystafell reoli wedi cael eu gwneud o ganlyniad i'r angen i wneud arbedion ariannol sylweddol ac er bod cynlluniau wedi cael eu sefydlu i leddfu effaith y newid hwn mewn trefniadau staffio, mae'n rhaid i mi dderbyn y bydd newidiadau o'r fath yn arwain yn y pen draw at rai newidiadau ystadegol, megis cynnydd bach yng nghyfradd y galwadau a nodir fel rhai wedi'u gadael. Fel a nodais yn y diwygiad diweddaraf o'm cynllun heddlu a throsedd, ni ellir mesur llwyddiant y system 101 dim ond yn ôl pa mor gyflym y mae galwadau'n cael eu hateb ond hefyd yn ôl effeithiolrwydd y cyswllt cychwynnol hwnnw.

Mae'r Heddlu ar hyn o bryd yn hyrwyddo dulliau cysylltu eraill ac mae niferoedd defnyddwyr y cyfleuster gwe-sgyrsio'n parhau i gynyddu, ac felly hefyd y defnydd o'r offeryn riportio ar-lein.

Mewn perthynas ag ansawdd y gwasanaeth, mae bodlonrwydd dioddefwyr yn dangos gwelliant parhaus gyda'r rhan fwyaf o feysydd yn dangos cynnydd mewn bodlonrwydd. Mae camau dilynol, gyda'r pwyslais cynyddol arnynt, wedi arwain at gynnydd sylweddol o 6.4 pwynt canran (i 78.5%), a bu cynnydd sylweddol o 3.8 pwynt canrannol mewn bodlonrwydd ar y profiad cyfan i 83.5%. Mae bodlonrwydd ar Rwyddineb Cysylltu'n dal i fod dros 95%.

Mae bodlonrwydd dioddefwyr byrgleriaethau o anheddau'n dangos gwelliannau hefyd, a'r rheiny'n sylweddol ar gyfer camau dilynol, gyda gwelliant o 12.7 pwynt canran, sy'n golygu bod y gyfradd bodlonrwydd wedi codi i 87.8%.

## Amcan Heddlu a Throsedd 3: Lleihau niwed a'r risg o niwed

Mae fy nghynllun ar gyfer 2015/16 yn cynnwys pedwar mesur i bennu effeithiolrwydd perfformiad yr heddlu o ran cyflawni'r amcan hwn, sef: nifer y bobl sy'n cael eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol (KSI) mewn gwrthdrawiadau traffig y ffordd, lefelau aildroseddu (yn cynnwys troseddwyr trais domestig risg uchel sy'n troseddu dro ar ôl tro), nifer yr arestiadau ac erlyniadau o rai sy'n cyflawni troseddau ecsbloetio plant yn rhywiol, a nifer yr achosion o ddelweddau anweddus o blant sy'n cael eu herlyn.

Mae nifer y bobl sy'n cael eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol mewn gwrthdrawiadau traffig y ffordd eleni hyd yma (hyd at fis Tachwedd 2015) wedi gostwng 25.5%, o 306 i 228. Caiff y gostyngiad hwn ei

brofi ar draws pob math o bobl sy’n cael eu lladd neu eu hanafu (gyrwyr ifanc, beicwyr modur, beicwyr a gyrwyr hŷn a.y.b.).

Dros y pedair blynedd ddiwethaf, bu gostyngiad o 17.0% yn nifer y bobl sy’n cael eu lladd neu eu hanafu’n ddifrifol mewn gwrthdrawiadau traffig y ffordd.

I gefnogi’r ymgyrch cenedlaethol yn erbyn yfed a gyrru, mae ymgyrchoedd pwrpasol wedi cael eu cynnal i atal pobl rhag gyrru dan ddylanwad alcohol a chyffuriau anghyfreithlon eraill. Cafodd yr ymgyrch yn erbyn gyrru dan ddylanwad alcohol/cyffuriau adeg y Nadolig, a weithredwyd yn bennaf gan yr Uned Plismona Ffyrdd, ei lansio ar 1 Rhagfyr. Dros gyfnod ei weithrediad, cynhaliwyd 8894 o brofion anadl gan arwain at 82 o arestiadau am yrru dan ddylanwad alcohol (0.9% o’r rhai a brofwyd) a 35 o arestiadau am yrru dan ddylanwad cyffuriau. Defnyddiwyd Cwnstabliaid Arbennig ar gyfer dros 400 o brofion anadl, yng Nghonwy a Sir Ddinbych yn bennaf.

Mae nifer y bobl ar feic pedalau sy’n cael eu lladd neu eu hanafu’n ddifrifol mewn gwrthdrawiadau traffig y ffordd yn dal i ostwng gyda gostyngiad o 26.7%, o 45 i 33.

Mae nifer y cerddwyr sy’n cael eu lladd neu eu hanafu’n ddifrifol mewn gwrthdrawiadau traffig y ffordd wedi gostwng 28.3%, i lawr o 46 i 33.

Mae nifer y beicwyr modur sy’n cael eu lladd neu eu hanafu’n ddifrifol mewn gwrthdrawiadau traffig y ffordd wedi gostwng 30.1% hefyd, i lawr o 83 i 58, yn rhannol o ganlyniad i’r ymateb gweithredol.

Fe wnaed gwaith dadansoddi’n lleol mewn perthynas â mater pobl ifanc yn yfed a gyrru. Mae gwaith pellach i ddeall y materion sy’n gysylltiedig â’r grŵp oedran hwn ac adnabod tueddiadau i’w gwneud yn bosibl targedu ardaloedd a throseddwyr gyda ffocws pendant yn parhau.

Rwyf hefyd wedi gwneud darn penodol o waith craffu i gael dealltwriaeth well am y meini prawf a fabwysiedir yn lleol wrth leoli’r faniau Gan Bwyll, pwnc sy’n cael ei godi’n rheolaidd gyda mi gan aelodau o’r cyhoedd. Cafodd adroddiad ei baratoi gan fy swyddfa ar hyn a chafodd ei rannu gyda’r Heddlu ar ddiwedd mis Tachwedd, a chyfarfu’r Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd â chynrychiolydd o’r Heddlu ym mis Ionawr i drafod yr adroddiad. Cafodd dau bwynt gweddillol eu hystyried wedyn yn fy Mwrdd Gweithredol Strategol ar 2 Ionawr. Un o’r pwyntiau a gafodd ystyriaeth oedd pa un a yw’r maen prawf ‘credir bod gorfodi'r cyfyngiad cyflymder yn gyfiawn, yn deg ac yn gymesur’ yn cael ei gymhwyso gan yr Heddlu wrth ystyried safle sy’n achosi pryder i’r cyhoedd (safle a adnabuwyd gan aelodau o’r cyhoedd fel lleoliad lle mae gyrwyr yn gyrru’n gyflymach na’r terfyn cyflymder yn rheolaidd a lle mae arolwg o gyflymder gan yr heddlu wedi cadarnhau pryderon o’r fath). Cadarnhaodd yr heddlu fod y maen prawf hwn yn cael ei gymhwyso.

Mewn perthynas â chamfanteisio’n rhywiol ar blant (CSE), bu 107 o arestiadau o gyflawnwyr eleni hyd yma. Mae hyn yn gynnydd sylweddol o’i gymharu â’r 10 arestiad ar gyfer y flwyddyn gyfan y llynedd. Mae arestiadau sy’n gysylltiedig â chamfanteisio’n rhywiol ar blant wedi codi’n sylweddol hyd yma eleni oherwydd gweithgarwch gweithredol cynyddol ac adnoddau sydd wedi cael eu targedu’n rhagweithiol tuag at droseddau camfanteisio’n rhywiol ar blant a’r mecanweithiau adnabod a chofnodi gwell.

Mae nifer yr achosion o ddelweddau anweddus o blant a ddatryswyd wedi cynyddu 189% o flwyddyn i flwyddyn (o 54 i 156).

Mae'r Bwrdd Rhanbarthol Diogelu Plant wedi cael gorchwyl i roi cymorth i gasglu data ynghylch nifer yr achosion o gamfanteisio'n rhywiol ar blant ledled Cymru. Fe wnaed hyn yn dilyn cais gan Gomisiynydd Plant Cymru. Mae Grŵp Gweithredol Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant yn mynd i gael ei sefydlu cyn bo hir dan nawddogaeth y Bwrdd Rhanbarthol Diogelu Plant i roi cymorth i gydgysylltu'r gwaith hwn, a chyda golwg ar gyflawni cynllun gweithredu cysylltiedig ar gamfanteisio'n rhywiol ar blant.

Mae hyfforddiant ym maes camfanteisio'n rhywiol ar blant wrthi'n cael ei roi i'r holl yrwyr tacsis trwyddedig yng ngogledd Cymru.

Cafodd Concordat Gofal mewn Argyfwng Cymru ei lansio ym mis Rhagfyr a bydd yn cael ei gyflawni trwy Grŵp Iechyd Meddwl Cyfiawnder Troseddol Gogledd Cymru. Mae cynllun cyflawni wrthi'n cael ei lunio gan HGC/BIPBC ar hyn o bryd.

Dechreuodd cynllun peilot Brysbennu ar y Stryd yn Wrecsam ym mis Rhagfyr a chyn bo hir bydd yn weithredol bob nos ar benwythnosau.

Dros y Nadolig, daeth ymarferwyr iechyd meddwl i Ganolfan Reoli'r Heddlu ar dri dyddiad allweddol. Cafodd hyn dderbyniad da gan BIPBC a HDC, ac amlygwyd gwerth trefniadau gweithio mewn partneriaeth o'r fath. Mae unrhyw wersi a defnydd ehangach ar gyfer Gogledd Cymru'n cael eu hadolygu'n gyson.

## Amcan Heddlu a Throsedd 4: Adeiladu partneriaethau effeithiol

Bydd aelodau'r Panel yn cofio, yn fy niwygiad diweddaraf o'r cynllun heddlu a throsedd, bod yr amcan hwn wedi cael ei benni fel fy mhrif amcan heddlu a throsedd a bod mesurau wedi'u hadnabod.

Ar dudalen 9 isod, bydd aelodau'r Panel yn gweld fy mod yn cyflawni nifer fawr o weithgareddau gyda'm partneriaid a'r gymuned leol. Yn ychwanegol at y rhai a restrir isod, mae rhai o'r gweithgareddau mewn partneriaeth yr wyf wedi'u cyflawni'n ddiweddar yn cynnwys:

Monitro cynnydd Canolfan Cymorth i Ddioddefwyr Gogledd Cymru (mae'r galw am y ganolfan arloesol hon i helpu dioddefwyr troseddau yng Ngogledd Cymru wedi mynd y tu hwnt i'r holl ddisgwyliadau. Cafodd y Ganolfan fwy na 4,300 o alwadau yn ystod y 3 mis cyntaf y bu'n weithredol); gweithio gyda phartneriaid i fynd i'r afael â nifer yr achosion o gadw dan adran 136 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl; craffu ar y defnydd o waredidau y tu allan i'r llys gyda'm partneriaid; craffu ar achosion o Dreisio a nodwyd fel rhai y bydd 'Dim Gweithredu Pellach' arnynt gyda'm partneriaid; craffu ar y gyfradd athreuliad mewn perthynas â throseddau rhywiol difrifol gyda'm partneriaid; a gwneud gwaith pellach ar ein Prosiect Plant y mae Rhiant Iddynt yn y Carchar gan gynnwys traddodi araith gyweirnod ar y Prosiect mewn Cynhadledd a gynhaliwyd gan Barnardo's Cymru yn Llanelwy.

## Trosedd a Phlismona yn eich ardal chi

Mae gwefan y Swyddfa Gartref http://www.police.uk yn darparu gwybodaeth ystadegol am droseddau a digwyddiadau ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n benodol i godau post.

## Adran Dau: Diweddariadau Cyffredinol

Yn yr adran hon rwy'n rhoi crynodeb byr i'r panel o'r prif bethau yr wyf wedi bod yn eu gwneud ers cyfarfod diwethaf y panel.

## Diwygio'r cynllun heddlu a throsedd

Cafodd y Trydydd Diwygiad i'm Cynllun Heddlu a Throsedd ei gyflwyno i'r Panel Heddlu a Throsedd ar 25 Ionawr 2016 a'i dderbyn yn unfrydol. Bydd Cynllun 2016/17 yn cael ei gyhoeddi ym mis Ebrill 2016.

Bydd fy Mlaenoriaethau Heddlu a Throsedd yn aros yr un fath fwy neu lai er bod y geiriad ar eu cyfer wedi cael ei newid ychydig ac y bydd y flaenoriaeth "cydweithio mewn partneriaethau effeithiol" yn rhoi cymorth i gyflawni fy nhair blaenoriaeth arall, sef atal trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, darparu'r ymateb priodol a lleihau niwed a'r risg o niwed.

## Ymgysylltu a Chyfathrebu

Rhan o'm rôl yw darparu gwybodaeth a galluogi'r gymuned i ymgysylltu â phlismona.

Ers cyfarfod diwethaf y panel, rwyf wedi cyflawni nifer o weithgareddau i godi ymwybyddiaeth o'm rôl ac i roi'r cyfle i gymunedau Gogledd Cymru gael dweud eu dweud am droseddau a phlismona.

Wrth ymgynghori ynghylch fy Nghynllun Heddlu a Throsedd diwygiedig, yn ogystal â'r arolwg ar-lein, cynhaliodd y Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd, Julian Sandham, a minnau ddeuddeg o gyfarfodydd ymgynghori ledled Gogledd Cymru gan felly roi'r cyfle i'r cyhoedd godi eu pryderon gyda ni'n uniongyrchol.

Roedd y rhai a oedd yn bresennol yn y digwyddiadau'n cefnogi fy mlaenoriaethau strategol bron yn unfrydol ac fe godon nhw rai materion pwysig iawn i mi eu hystyried. Cymerodd pobl y cyfle i godi unrhyw bryderon ynghylch plismona ac fe ymgysyllton nhw â mi ar draws amrywiaeth o faterion plismona. Ysgogodd y cyfarfodydd a'r arolygon ar-lein adborth defnyddiol iawn ac roeddent yn effeithiol iawn o ran fy nghynorthwyo gyda'm hadolygiad o'r cynllun a'i amcanion.

Mae'r cyfarfodydd y cyfeirir atynt isod yn ychwanegol at yr ymgysylltu dyddiol rhyngof fi a swyddogion Heddlu Gogledd Cymru ac yn rhai o uchafbwyntiau'r misoedd diwethaf:

Ym mis Tachwedd cefais gyfarfod gyda'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, cyfarfod gweinidogol gyda Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu eraill Cymru yng Nghaerdydd, cefais gyfarfod gyda staff Cymdeithas y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu, ac roeddwn yn bresennol mewn cyfarfod am Alluoedd Gorfodi'r Gyfraith yn New Scotland Yard. Cefais gyfarfod hefyd gyda chynrychiolwyr o Brosiect Plismona Cymunedol Bangsamaro a oedd wedi teithio o Ynysoedd Philippines i ddysgu am blismona cymunedol yng ngogledd Cymru, bûm mewn digwyddiad croesawu i Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu newydd, cefais gyfarfod gyda Phrif Weithredwyr y Cynghorau Gwirfoddol, ac roeddwn yn siaradwr gwadd yng nghyfarfod Cwlwm Cyfeillgarwch Llandudno. Cefais gyfarfod gyda golygydd y Daily Post, cymerais ran mewn cyfweliad a ddarlledwyd ar raglen Y Sgwrs ar S4C, ac roeddwn yn bresennol yn ystod ymweliad EHB Dug a Duges Caergrawnt â GISDA yng Nghaernarfon. Cefais gyfarfod hefyd gyda Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu Dyfed Powys i drafod Gan Bwyll, roeddwn yn bresennol yng Ngwobrau Dewrder yr Heddlu a Gwobrau Heddlu De Cymru yn ogystal â bod yn bresennol yn lansiad y Ganolfan Triniaeth Alcohol newydd ac Ymgyrch Yfed a Gyrru cyfnod y

Nadolig yn Wrecsam, a bod yn bresennol yng Nghyd-gynhadledd Cymdeithas y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu a Chyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu ym Manceinion.

Ym mis Rhagfyr siaradais am fy rôl a'm cyfrifoldebau yn un o gyfarfodydd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Partneriaethau Conwy, roeddwn yn bresennol yng nghyfarfod Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Gogledd Cymru, cefais gyfarfod gyda Mary Callam, Cyfarwyddwr Cyffredinol Grŵp Troseddau a Phlismona'r Swyddfa Gartref, ac roeddwn yn bresennol yn y diwrnod hyfforddiant a drefnwyd i'r Cadeiryddion newydd sydd Wedi Ymgymhwyso yn y Gyfraith. Roeddwn yn bresennol hefyd yn Uwchgynhadledd Diwygio'r Heddlu, mewn Cynhadledd Trawsnewid Cyfiawnder Ieuenctid ac fe gynhaliais ddigwyddiad ymgynghori i fudiadau'r trydydd sector. Cymerais ran mewn taith drwy'r gymuned gyda swyddogion heddlu yng Nghei Connah, ac fe ymwelais â Phrosiect Isallt yn Llandudno.

Ym mis Ionawr cefais gyfarfod gyda chynghorwyr o Wrecsam, roeddwn yn bresennol yng nghyfarfod Bwrdd a Chyfarfod Cyffredinol Cymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, roeddwn yn bresennol yng nghyfarfod Bwrdd Cymunedau Diogelach Gogledd Cymru, Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, a chyfarfod Grŵp Plismona Cymru Gyfan. Roeddwn hefyd yn bresennol mewn digwyddiad i gyflwyno sieciau i enillwyr Cynllun Cyllidebu Cyfranogol, ac roeddwn yn siaradwr gwadd yng nghyfarfod Un Llais Cymru yn Y Waun. Tuag at ddiwedd y mis cefais gyfarfod hefyd gyda chynghorwyr cymuned o Barc Caia, Wrecsam, i drafod digwyddiadau diweddar yn yr ardal.

Ers cyfarfod diwethaf y panel, yn ogystal â chwrdd â chynrychiolwyr cymunedol, partneriaid ac aelodau o'r cyhoedd, rwyf hefyd wedi cyflawni nifer o weithgareddau allweddol yn y cyfryngau. Mae'r rhain wedi cynnwys:

**Rydw i'n falch o allu helpu dioddefwyr trosedd**

**Dim mwy o doriadau i'r heddlu yn fuddugoliaeth i synnwyr cyffredin**

**Canu'r gloch ar ladron pyrsiau**

**Comisiynydd yr Heddlu yn croesawu deddf newydd**

**Mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol**

**Cost plismona yn codi dim ond 9c yr wythnos**

## Y Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd, Julian Sandham

Gofynnodd y panel am wybodaeth am waith y dirprwy gomisiynydd. Mae'n llwyr ymroddedig a hynny mewn ffordd effeithiol iawn i'm rhaglen waith sy'n gofyn llawer, fel a nodir isod:

Mae ymrwymiadau'r dirprwy gomisiynydd ers cyfarfod y Panel Heddlu a Throseddu ym mis Rhagfyr 2015 wedi cynnwys y gweithgareddau craffu canlynol:

- Cyflwyno canlyniadau ein gwaith craffu ar Gan Bwyll i'r Bwrdd Gweithredol Strategol.
- Mynychu cyfarfodydd amrywiol mewn perthynas â chynigion i Gronfa Arloesi'r Heddlu.
- Bod yn bresennol yng nghyfarfod Grŵp Plismona Cymru Gyfan yn Llandrindod;

- Ymweld â'r Ganolfan Helpu Dioddefwyr, Llanelwy;
- Cyfarfod chwarterol gyda'r Dirprwy Brif Gwnstabl a'r Uwcharolygydd, yr adran Safonau Proffesiynol.
- Bod yn bresennol yng Nghyfarfod Cynllunio Strategol yr Heddlu.
- Bod yn bresennol mewn cyfarfod chwe-misol gyda Chomisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu, Caerdydd.
- Cadeirio cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Integredig Cyfiawnder Cymunedol Gogledd Cymru.
- Bod yn bresennol mewn dau gyfarfod gan banel Prosiect Cydweithio Fforensig y Gogledd Orllewin.
- Sesiwn briffio gan yr Heddlu parthed yr adolygiad o effeithlonrwydd.
- Sesiwn briffio gan yr Heddlu parthed gwaith ar y prosiect data symudol.
- Cadeirio Bwrdd Llywodraethu'r Ganolfan Helpu Dioddefwyr.
- Bod yn bresennol ac arsylwi ar ddau gyfarfod aur fel rhan o Ymchwiliad Plismona Cudd Pitchford.

Mae ei ymrwymiadau hefyd wedi cynnwys y gweithgareddau ymgysylltu cymunedol canlynol:

- Bod yn bresennol yng nghyfarfod Cwlwm Cyfeillgarwch Llandudno, Craig y Don.
- Cyfarfod gyda'r Rheolwr Cyflawni Rhanbarthol ar gyfer Cymru, Cyngor Ar Bopeth (CAB).
- Bod yn bresennol a thraddodi araith yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol Rhwydwaith Cydraddoldeb Rhanbarthol Gogledd Cymru (NWREN).
- Bod yn bresennol yng Nghinio Gwobrwyo Gwasanaeth Cymunedol Ffederasiwn yr Heddlu.
- Cael cyfarfod gyda Mr Wayne Crocker, Cyfarwyddwr Mencap Cymru, i drafod cerdyn Cadwa'n Ddiogel Cymru.
- Bod yn bresennol yn Noson Wobrwyo'r Heddlu a chyflwyno gwobr Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu gorau'r flwyddyn i PCSO 2896 Andrea Ellis.
- Bod yn bresennol yng nghyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Troseddau ac Anhrefn Cyngor Sir y Fflint.
- Bod yn bresennol yn lansiad yr ymgyrch 'Diogela Dy Ddiod' a'r Ganolfan Triniaeth Alcohol, Wrecsam.
- Cyflwyno gwobr y 'Dafarn Orau' yn Seremoni Wobrwyo Braf Bob Nos Conwy 2015, a gynhaliwyd yng Ngholeg Llandrillo.
- Bod yn bresennol yng nghyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Lleol Conwy/Sir Ddinbych.
- Cyflwyno gwybodaeth mewn digwyddiadau ymgynghori a gynhaliwyd i drafod diwygio'r cynllun heddlu a throsedd a'r cylch cynllunio ariannol yn: Llangefni, Prestatyn, Bangor, Cei Connah, Abergele, Dinbych, Llandudno, Yr Wyddgrug, Wrecsam, Rhiwabon a Dolgellau.
- Ymweliad ymgysylltu cymunedol â Chei Connah ac agor safle'r heddlu ym Mharc Siopa Brychdwn.
- Cyflwyno gwybodaeth mewn digwyddiad ymgynghori a gynhaliwyd i drafod diwygio'r cynllun heddlu a throsedd a'r cylch cynllunio ariannol gyda'r trydydd sector.
- Ymweliad ymgysylltu cymunedol ag uned atal troseddau ar ffurf 'siop galw heibio', canolfan siopa Victoria, Llandudno.
- Cyfarfod gyda'r Cyngh. Mark Pritchard (Arweinydd), y Cyngh. Hugh Jones, y Cyngh. I. David Bithel, y Cynghorydd Steve Wilson, y Cynghorydd Cymuned Brenda Roberts i drafod materion diogelwch cymunedol, Wrecsam.
- Agor Sioe Deithiol Grŵp Llywio Gwarchod Cymdogaeth yn ffurfiol.
- Bod yn bresennol yng ngwobrau PACT / y cynllun cyllidebu cyfranogol.
- Cyfarfod gyda chadeirydd a chlerc Cyngor Cymuned Parc Caia, Wrecsam.

- Bod yn bresennol mewn derbyniad ar wahoddiad y Cyngh. Dr. Sibani Roy – Cyngor Tref Bae Colwyn – derbyniad i anrhydeddu Ms Fardousi Sharhriar.
- Bod yn bresennol ac annerch cyfarfod UN LLAIS Cymru, (Sir y Fflint a Wrecsam), Y Waun.

## Comisiynu

Rwy'n parhau i fonitro'r prosiectau/gwasanaethau y dyrannwyd cyllid iddynt i sicrhau eu bod yn cyflawni gwerth am arian ar gyfer y cyhoedd yng Ngogledd Cymru, a'u bod yn cefnogi'r gwaith o gyflawni fy Nghynllun Heddlu a Throsedd. Gallaf sicrhau'r panel bod proses yn bodoli i ailddosbarthu'r cyllid yn ôl yr angen.

Mae'r holl Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol wedi cael gwybod bod y cyllid ar gyfer 2016-17 yn aros yr un fath, ynghyd â'r tair blaenoriaeth, sef cam-drin domestig, ymddygiad gwrthgymdeithasol a chaledu targedau. Mae'r holl gomisiynu a wnaed yn ystod 2015-16 wedi bod yn perfformio'n dda.

Mae cyllidebau comisiynu ar gyfer 2016/17 wedi cael eu cadarnhau bellach gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Fe wnaeth y diwygiad diweddaraf i'm cynllun heddlu a throsedd adnabod yr un blaenoriaethau felly byddaf yn parhau i gomisiynu'r gwasanaeth Cynghorydd Annibynnol ar Drais Domestig a Chynghorydd Annibynnol ar Drais Rhywiol ar gyfer 2016/17 a diogelu'r cymorth hanfodol hwn i ddioddefwyr y troseddau difrifol hyn.

## Cyllideb Gyfranogol:

Fel y bydd y Panel yn ymwybodol, cynhaliwyd y cynllun cyllidebu cyfranogol hynod lwyddiannus eto yn 2015.

Roedd cyfanswm o £42,000 ar gael i grwpiau cymunedol ac roedd yn benodol ar gyfer prosiectau sy'n mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol ac yn brwydro yn erbyn troseddau ac anhrefn. Cafodd y cynllun ei gyd-ariannu gan arian a adferwyd trwy'r Ddeddf Enillion Troseddau a Chronfa'r Comisiynydd.

Cafodd Cynllun 2015 ei lansio ar 10 Awst 2015 ac roedd gan grwpiau cymunedol ledled Gogledd Cymru tan 2 Hydref i gynnig am gyllid. Aeth 32 o brosiectau ymlaen i'r bleidlais gyhoeddus a bwriodd bron i 7,000 o aelodau o'r cyhoedd ledled gogledd Cymru eu pleidlais dros eu dewis brosiectau. Cynhaliwyd seremoni i gyflwyno'r sieciau ar 26 Ionawr ym Mhencadlys yr Heddlu, Bae Colwyn.

Mae manylion y prosiectau llwyddiannus i'w gweld ar fy ngwefan.

## Y Cyd-bwyllgor Archwilio

Mae'r Cyd-bwyllgor Archwilio wedi parhau â'i waith yn ystod 2015/16. Mae'n cynnwys 5 aelod annibynnol, a'u diben yw rhoi sicrwydd i'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl ynghylch digonolrwydd y trefniadau llywodraethu ar gyfer Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r heddlu.

Mae'r Pwyllgor yn cwrdd o leiaf 4 gwaith y flwyddyn, ac mae'r cyfarfodydd hyn yn rhai cyhoeddus. Mae'r rhan fwyaf o gyfarfodydd wedi cynnwys sesiwn briffio hefyd i roi mwy o wybodaeth i'r pwyllgor

am nifer o bynciau gan gynnwys: rheoli risgiau; ACEM; ystadau; a rheoli trysorlys. Mae sesiynau y bwriedir eu cynnal yn y dyfodol yn cynnwys: Y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol; ynni a'r amgylchedd; a chau'r cyfrifon yn gynt. Hefyd, trefnir hyfforddiant ar sail Cymru gyfan bob mis Hydref, a hwnnw'n cael ei ddarparu gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth.

Ceir mwy o wybodaeth am aelodaeth a gwaith y Cyd-bwyllgor Archwilio ar fy ngwefan.

## Diweddariad ar ACEM

Ar 8 Chwefror 2016 cyhoeddodd ACEM yr adroddiad arolygu PEEL (Effeithiolrwydd, Effeithlonrwydd a Chyfreithlondeb yr Heddlu) diweddaraf ar gyfer Heddlu Gogledd Cymru. Roedd yr adroddiad arbennig hwn yn canolbwyntio ar Gyfreithlondeb.

Ar y cyfan, mae hwn yn adroddiad cadarnhaol iawn sy'n dangos bod yr heddlu ar y trywydd iawn a'i fod yn darparu gwasanaeth heddlu effeithiol, moesegol a theg. Roedd yn arbennig o dda gennyf nodi bod gan yr heddlu ddealltwriaeth dda o'n cymunedau a'u bod yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth ar gyfer dioddefwyr troseddau y mae eu buddiannau hefyd yn ganolog i'm Cynllun Heddlu a Throsedd ar gyfer Gogledd Cymru.

Mae arolygon diweddar wedi dangos bod hyder y cyhoedd yn Heddlu Gogledd Cymru'n uchel iawn ac mae canfyddiadau'r adroddiad hwn yn dangos bod sylfaen dda i'w hyder. Nid oes unrhyw beth sy'n well na thystiolaeth annibynnol o ansawdd. Nid yw'r adroddiad hwn yn golygu nad oes lle i wella; wrth gwrs bod, a byddaf yn gweithio gyda'r Prif Gwnstabl i wneud yn siŵr bod y gwelliannau'n cael eu gwneud.

## Cydweithio

Mewn cyfarfod ar 8 Ionawr 2016 cytunodd comisiynwyr heddlu a throseddu Heddlu Gogledd Cymru, Heddlu Glannau Mersi a Heddlu Swydd Gaer ar achos busnes amlinellol ar gyfer model fforensig rhwng y tri heddlu. Bydd achos busnes llawn yn cael ei ddatblygu yn awr er mwyn i'r comisiynwyr a'r prif swyddogion gytuno arno yn y cyfarfod nesaf ym mis Mawrth 2016.

## Gohebiaeth

Ffigyrau gohebiaeth rhwng 1 Tachwedd 2015 a 30 Ionawr 2016

| ***Categori'r Ohebiaeth*** | ***Nifer*** |
|---|---|
| Adborth Penodol ar y gwasanaeth plismona | 10 |
| Adborth cyffredinol ar y gwasanaeth plismona | 0 |
| Cwynion a atgyfeiriwyd at yr Adran Safonau Proffesiynol | 41 |
| Materion staffio (gall hyn gynnwys trefniadau ar gyfer paneli camymddwyn, tribiwnlysoedd apêl yr heddlu, gohebiaeth oddi wrth gymdeithasau staff a materion perthnasol eraill) | 48 |
| Gohebiaeth gyffredinol | 184 |

## Adroddiad gan Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd

| | |
|---|---|
| **Teitl:** | **Diweddariad ar Gyllideb 2015/16 (ar 31 Rhagfyr 2015)** |
| **Cyfarfod:** | **Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, 7 Mawrth 2016** |
| **Awdur:** | **Kate Jackson, Prif Swyddog Cyllid** |

**1. Cyflwyniad**

1.1 Nod y papur hwn yw darparu diweddariad i aelodau'r panel ynglŷn â'r gyllideb plismona ar gyfer Gogledd Cymru ar 31 Rhagfyr 2015 (mis 9).

**2. Argymhellion**

2.1 Nodi'r adroddiad.

**3. Diweddariad ar Gyllideb 2015/16**

3.1 Cafodd cyllideb net ar gyfer Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ei chymeradwyo gan Banel yr Heddlu a Throsedd ar 19 Ionawr 2015 yn £139.836m. Ar 31 Rhagfyr 2015, cyfanswm y rhagamcan hyd at ddiwedd y flwyddyn oedd tanwariant net o £0.752m.

3.2 Mae yna nifer o newidiadau i'r gyllideb ers yr adroddiad monitro diwethaf. Yn benodol, rhagwelir y bydd £1.5m yn cael ei dynnu o'r gronfa wrth gefn Rheoli Newid i ariannu diswyddiadau gwirfoddol; a £0.5m i'w dynnu o'r Gronfa Wrth Gefn Cynnal a Chadw Ystadau a Diogelwch i ariannu gwaith diogelwch. Mae'r symiau wedi cael eu trosglwyddo i'r pennawd cyllideb perthnasol er mwyn ei gwneud yn hawdd gweld y sefyllfa sylfaenol. Mae hyn wedi cael ei gydbwyso gan newid cyfatebol yn y symudiad a gynlluniwyd mewn cronfeydd wrth gefn.

3.3 Ac eithrio'r eitemau uchod, rhagwelir i wariant fod yn unol yn fras â'r gyllideb. Fodd bynnag, mae hyn yn cynnwys nifer o ragamcanion o orwariant a thanwariant. Y mwyaf arwyddocaol o'r rhain yw:

- Gweithwyr - rhagwelir tanwariant o £0.032m. (£0.321m ar 30 Medi)

  Er nad yw'r amrywiant cyffredinol yma yn sylweddol, mae'r amrywiant wedi symud yn sylweddol, ac mae amrywiadau mawr o fewn yr adran hon. Y mwyaf arwyddocaol o'r rhain yw:
  - Gorwariant £0.808m Cyflog Swyddog Heddlu - Mae'r cynnydd yn y rhagamcaniad hwn yn gyfuniad o gyfrifiad terfynol y dyfarniad cyflog, sydd wedi cael ei ddefnyddio, a nifer gwirioneddol y swyddogion ychydig yn uwch na'r amcangyfrif. Gellir diwallu'r gorwariant hwn o Gronfa Wrth Gefn Profiannwr os oes angen.
  - Tanwariant £0.702m Cyflog Staff yr Heddlu – mae rhagor o swyddi gwag wedi codi ers cynhyrchu'r monitro blaenorol.

- Tanwariant o £0.138m Costau gweithwyr eraill - mae cost cyflogwyr a hawliadau atebolrwydd cyhoeddus yn cael eu cynnwys o fewn y gyllideb hon. Bu gostyngiad mewn gweithgaredd o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol.

- Costau Safle - tanwariant wedi'i ragamcanu o £0.275m
  - Mae costau ynni yn is na'r gyllideb oherwydd effaith gyfunol llai o ddefnydd a chostau uned is.

- Cludiant - rhagwelir tanwariant o £0.460m.
  - Mae mwyafrif hyn yn ymwneud â chostau tanwydd, sy'n cynyddu, ond nid ar y gyfradd a ragwelwyd pan osodwyd y gyllideb.

- Cyflenwadau a Gwasanaethau – rhagwelir gorwariant o £0.667m
  - Rhagamcan y gyllideb offer ar hyn o bryd yw gorwariant o £0.085m (£0.283m yn flaenorol). Fel y rhagwelwyd, mae gorwariant wedi gostwng.
  - TG a Chyfathrebu gorwariant o £0.664m. Cytunwyd ar ad-daliad gan y darparwr ffôn symudol o £0.424m. Mae'r gostyngiad ychwanegol yn y gorwariant yn ymwneud â gostyngiadau mewn costau rhai contractau llai (£0.120m); oedi wrth adnewyddu offer (£0.085m) a chostau benthyca na fydd yn cael eu tynnu'r flwyddyn ariannol hon (£0.113m)

- Incwm - rhagwelir incwm ychwanegol o £0.652m
  - Mae'r rhan fwyaf o'r incwm ychwanegol yn ymwneud ag erlyniadau dan arweiniad yr heddlu. Lle mae'r heddlu yn arwain erlyniad a chostau yn cael eu dyfarnu, mae'r heddlu yn derbyn y costau fel incwm. Mae cost gysylltiedig, ond gellir ariannu hon o'r incwm ychwanegol. Mae hyn yn cael ei asesu i gyfrifo faint o hyn sy'n gynaliadwy, ac felly gellir ei chynnwys mewn cyllidebau blynyddoedd i ddod.

3.4 Ar hyn o bryd mae rhagamcan taliadau cyfalaf, taliadau wrth gefn a'r gronfa diogelwch cymunedol yn unol â'r gyllideb.

3.5 Rhoddir crynodeb o'r cyllidebau a'r rhagamcanion isod.

| | Cyllideb Wreiddiol £'000 | Cyllideb 31 Rhagfyr 2015 £'000 | Gwirioneddol 31 Rhagfyr 2015 £'000 | Rhagamcan hyd Ddiwedd y Flwyddyn £'000 | Rhagamcan o'r Amrywiant £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gwariant** | | | | | |
| Gweithwyr | 119,951 | 122,519 | 89,889 | 122,487 | (32) |
| Adeiladau | 8,051 | 8,559 | 5,937 | 8,284 | (275) |
| Cludiant | 5,133 | 5,133 | 3,139 | 4,673 | (460) |
| Cyflenwadau a gwasanaethau | 19,742 | 20,072 | 15,590 | 20,739 | 667 |
| Taliadau Dyledion a Chyfraniadau at Gyfalaf | 1,504 | 1,504 | 112 | 1,504 | - |
| Arian wrth Gefn | 800 | 182 | 600 | 182 | - |
| Cronfa diogelwch cymunedol | 1,166 | 1,166 | 45 | 1,166 | - |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm y Gwariant** | **156,347** | **159,135** | **115,312** | **159,035** | **(100)** |
| | | | | | |
| **Incwm** | **(16,598)** | **(17,385)** | **(10,997)** | **(18,037)** | **(652)** |
| | | | | | |
| **Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn** | **87** | **(1,914)** | **-** | **(1,914)** | **-** |
| | | | | | |
| **Cyfanswm y Gwariant Net** | **139,836** | **139,836** | **104,315** | **139,084** | **(752)** |
| | | | | | |
| **Cyllid** | | | | | |
| Grantiau | (73,162) | (73,162) | (55,277) | (73,162) | - |
| Praesept | (66,674) | (66,674) | (50,005) | (66,674) | - |
| **Cyfanswm Cyllid** | **(139,836)** | **(139,836)** | **(105,282)** | **(139,836)** | **-** |
| | | | | | |
| **Tanwariant net** | | | | | **(752)** |

3.6 Mae’r uchod yn cynnwys incwm a gwariant yn ymwneud â’r grant Gwasanaethau Dioddefwyr gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae £770,773 wedi cael ei ddyrannu i Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru. Mae £747,972 wedi'i ymrwymo ar gyfer comisiynu gwasanaethau dioddefwyr, gyda'r gweddill yn cyfrannu at ein costau cysylltiedig. Cafodd £393,391 ei wario erbyn 31 Rhagfyr 2015. Roedd gwasanaethau a gomisiynwyd yn cynnwys: Canolfan Cymorth i Ddioddefwyr, IDVA, ISVA a Get Safe Online.

## 4. Cyfalaf

4.1 Y rhaglen gyfalaf wreiddiol ar gyfer 2015/16 yw £17.738m yn unol â’r Cynllun Ariannol Tymor Canolig blaenorol, ond pan ystyriwyd symiau a ddygwyd ymlaen o 2014/15, cynyddodd hyn i £19.138m; fodd bynnag, ar ôl ail-broffilio fel rhan o'r broses i osod y cyllidebau ar gyfer 2016/17, mae’r gyllideb ddiwygiedig ar gyfer 2015/16 bellach yn £8,191

4.2 Mae cyfran fawr o'r gyllideb gyfalaf ar gyfer 2015/16 wedi cael ei dyrannu i ddau brosiect ystadau o bwys:

- Prosiect Wrecsam - £2.300m (cyfanswm cyllideb o £16.8m gan gynnwys blynyddoedd blaenorol)
- Datblygiad Llandudno - £0.600m (cyfanswm cyllideb o £2.750m yn cynnwys blynyddoedd blaenorol)
- Mae Prosiect Adleoli Pwllheli wedi’i ohirio ar hyn o bryd, gan fod pryderon am addasrwydd y safle a ddewiswyd.

4.3 Cafodd fframwaith prynu cerbydau cenedlaethol newydd ei gwblhau ym mis Medi, a disgwylir y bydd y rhaglen yn cael ei chwblhau erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

4.4 Mae'r rhan fwyaf o'r prosiectau Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu yn y cam dylunio a chomisiynu.

4.5 Mae crynodeb o'r cyllidebau cyfalaf yn cael eu dangos isod:

| | 2015/16 Cyllideb Wreiddiol | 2015/16 Cyllideb Ddiwygiedig | Gwariant 2015/16 tan 31 Rhagfyr 2015<br><br>£'000 | Cyllideb 2016/17 (fesul MTFP)<br><br>£'000 |
|---|---|---|---|---|
| Rhaglen Ystadau | 11,693 | 3,742 | 1,029 | 6,510 |
| Cerbydau ac Offer | 1,500 | 2,602 | 1,629 | 1,500 |
| Offer Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu | 4,545 | 1,847 | 466 | 300 |
| **Cyfanswm Gwariant Cyfalaf** | **17,738** | **8,191** | **3,124** | **8,310** |

## 5 Goblygiadau

| | |
|---|---|
| Amrywiaeth | Dim goblygiadau ar wahân o ran amrywiaeth |
| Atebolrwydd | Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi gwybod i Panel yr Heddlu a Throsedd am y sefyllfa monitro refeniw a chyfalaf fel ag y mae ddiwedd Rhagfyr 2015.<br><br>Mae cyllid digonol yn hanfodol i gyflawni cynllun yr heddlu a throsedd ac i ddiwallu ein gofynion cyfreithiol. |
| Cyfreithiol | Dim goblygiadau cyfreithiol ar wahân |
| Risg | Dim goblygiadau risg ar wahân |
| Cynllun yr Heddlu a Throsedd | Dim goblygiadau heddlu a throsedd ar wahân. |